YR YMOFYNYDD.

RHIF. 33.] MEDI, 1861. [AIL GYFRES.

YSPRYDOLIAETH AC ANFFAELEDIGRWYDD.

RHIF. I.

Y MAE gwir werth a defnyddioldeb yr Ysgrythyrau yn debyg bellach o ddyfod yn destun dadl ac ymchwiliad fwy a mwy gyda duwinyddion ac ymofynwyr ein hoes a'n gwlad. Ac yn ddiau, po fwyaf helaeth, a po fwyaf trwyadl yr ymchwiliad, goreu i gyd yn y pendraw. Bydd llawer Cristion ofnus o bosibl yn barod i ddychrynu, gan ofni fod seiliau crefydd mewn perygl; ond heb achos. Saif y gwirionedd ei dir yn ngwyneb pob rhyw ymosodiad yn ei erbyn, tra y bydd rhagfarnau disail ac esponiadau traddodiadol, ond camsyniol, yn gorfod rhoddi ffordd—a hyny heb golled, mewn gwirionedd, i neb; ond er mawr ennill i laweroedd. Sicr nad yw yr Ysgrythyrau yn attebol (er yn rhy fynych, ond yn anghyfiawn y gwneir hwynt yn attebol) am gamsyniadau a gwallau adysgrifenwyr, cyfieithwyr, ac esponwyr; a llai fyth am honiadau chwyddedig y rhai hyny o'u hamddiffynwyr ag y mae eu zêl yn fwy na'u gwybodaeth. Y mae yn ddigon os ceir fod yr Ysgrythyr Lân, fel y credwn ei bod, yn atteb yn gyflawn i'r hyn y mae yn broffesu ei bod, fel yn cynnwys cofnodiadau o ddadguddiad Dwyfol; a pho fwyaf y chwilir i mewn iddi, mwyaf i gyd y canfyddir ei gwerth a'i buddioldeb at bob achosion crefydd a duwioldeb. Nid ydym yn gwrthod y trysor nefol nac yn ei werthfawrogi yn llai am ei fod wedi ei roddi a'i drosglwyddo i ni "mewn llestri o bridd."

Nid gwiw ceisio celu'r ffaith fod *amheuaeth* ac *ymchwiliadau* mewn perthynas ag YSPRYDOLIAETH ac ANFFAELEDIGRWYDD yr Ysgrythyr Lân wrth wraidd y mudiad duwinyddol ag sydd yn myned ymlaen yn yr oes ac yn y dyddiau hyn. Y mae y wyntyll ar gael ei gosod ar waith, a diau y ceir gweled chwalu ymaith llawer o'r ŷs oddiar y llawr-dyrnu crefyddol. Y mae aflonyddwch o leiaf wedi syrthio eisoes ar "y rhai yr oedd yn esmwyth arnynt yn Seion," ac y mae y gwylwyr, tebyg, am ddangos eu bod hwy ar ddihun. Yr oedd y diweddar Dr. Arnold o Rugby, mae'n debyg, yn arfer dweud, fod arwyddion o ddadl fawr ar y pwnc o ysprydoliaeth ac anffaeledigrwydd yr Ysgrythyr, yn agosâu ac wrth y drws, ac fe rag-ddywedodd y byddai i hyn, pan y delai oddiamgylch, i beri cymaint o chwyldroad mewn Duwinyddiaeth ag a wnaeth Diwygiad LUTHER. Ymddengys fod cyhoeddiad yr "*Essays and Reviews*" a'r cynhwrf a gymerodd le o'i herwydd, wedi bod yn foddion i brysuro'r dydd rhagddywededig, a dyma y cwestiwn sydd

yn bresenol gyda dynion meddylgar ac ymchwilgar—nid rhywbeth ynghylch yr athrawiaethau mewn dadl rhwng y gwahanol bleidiau, eithr peth ag sydd wrth wraidd pob dadleuaeth, sef ysprydoliaeth ac anffaeledigrwydd yr Ysgrythyrau.

Ar y ddadl fawr hon yr ydym ni, fel Undodiaid, yn gallu edrych i lawr yn dawel, megys oddiar safle fanteisiol, ac yn cael gweled duwinyddion galluocaf eglwysi eraill yn dyfod, o gam i gam, i gofleidio rhai egwyddorion pwysig ag y buom ni yn hir, dan lawer o warth ac enllib, yn sefyll drostynt. Y cyhuddiad a ddygid yn ein herbyn ydoedd, ein bod yn rhyfygus yn gosod i fynu ein rheswm i farnu ar athrawiaethau dadguddiedig y Beibl—a hyny am ein bod yn ceisio deall ac egluro meddwl yr Ysgrythyr yn ol yr un egwyddorion cymmeradwyedig ag y chwilir am ystyr a chynnwysiad ysgrifeniadau cyffelyb, ac yn ymofyn am nodau anffaeledig gwirionedd yn athrawiaethau'r Beibl, ar yr un egwyddor, a'r un modd ag y chwilir ac y bernir am wirionedd mewn pethau eraill; hyny yw, yr oeddem yn beiddio arferyd ein rheswm mewn pethau crefyddol. Ac os ydym ni, fel Undodiaid, wedi cael y fraint o gyrhaedd gradd uwch o wirionedd, hyny a fu, oherwydd gallu ymwrthod â'r culni traddodiadol a sectyddol, a dwyn ymlaen ein hymchwiliadau yn fwy diofn ac ar egwyddorion mwy rhesymol. Ac y mae ein dyledswydd, fel y cyfryw, yn ddeublyg: i ymdrechu gosod ein argyhoeddiadau crefyddol yn eglur ger bron ein cyd-grefyddwyr o bleidiau eraill, ac i gymmell arnynt ymchwiliad diofn a difrifol am y gwir, ar yr un egwyddorion rhyddfrydol. Dyma fel y bu yn y mudiad a gymmerodd le yn y Deheubarth tua dechreu'r ganrif ddiweddaf, olion pa un sydd yn aros hyd heddyw: megys y tystia un o'r blaenoriaid yn y mudiad hwnw, y Parchedig Dafydd Llwyd. (Gweler "Hanes y Bardd.")

> "Siencyn Sion wiw-ddawn ddyn,
> Hoff araeth, fu'r offeryn,
> Na ro'wn eithr i'r 'Un Athraw'
> Gred o'm bron yn llon, na'm llaw.
> Hen Galfin ac Arminiws
> Gyrrais draw gorîs y drws," &c.

Yr ydym wedi arfer llawenychu, ac nid heb achos da, yn y llewyrchiad a dorrodd allan ar ol tywyllwch y canol-oesoedd, trwy offerynoliaeth Wickliff, Luther, ac eraill. Byddai Protestaniaid yn hoffi cyfenwi eu hunain yn *Blant y Diwygiad.* Ond yn anghyson ddigon, aeth y rhan fwyaf o flaenoriaid y Diwygiad hwnw yn fuan i anghofio egwyddor eu hymneilldua oddiwrth Babyddiaeth. Wedi ennill mesur o rydd'iad oddiwrth gaethiwed Rhufain, aethant i ffurfio iau i'w osod ar yddfau eu dilynwyr, heb ystyried nad oedd ganddynt hwy ddim mwy o hawl na'r Pab i ddywedyd, "Cymerwch ein iau *ni* arnoch a dysgwch genym." Aethant hwy a'u dilynwyr i sefydlu credöau a chyffesiynau, ac i'w ystradebu *(stereotype)*, gan eu rhwymo hyd y gallent ar gredinwyr trwy yr oesoedd dyfodol, fel pe mynent ddywedyd wrth donnau y Diwygiad, "Hyd yma yr ewch, ac nid ymhellach." Llwyddwyd yn hyny i fesur mawr, ond nid yn gwbl.

Yn fuan cyfododd Copernicus, Galileo, ac athronwyr celfyddydol eraill, a dygwyd egwyddorion gwir seryddiaeth i'r goleu clir, fel ag i argyhoeddi pawb ond yr anwybodus a'r rhagfarnllyd, nad oedd ysgrifenwyr yr Ysgrythyrau yn deall seryddiaeth, eithr eu bod ar y pwnc hwnw, o leiaf, megys hefyd mewn

perthynas â gwybodaethau eraill, celfyddydol ac hanesyddol, yn ffaeledig ac yn gamsyniol fel eraill o'n cyfoedion. Ond beth am hyny? A oeddent o'r herwydd yn llai tystion cywir, yn eu gwaith yn cofnodi yr hyn a wyddent ac a ddwys-deimlent am ddyfnion bethau Duw—ei drefniadau a'i ymweliadau grasol a rhagluniaethol, a'r dadguddiad o'i ewyllys a'i amcanion tuag at ddynolryw?

Nid gwir ddiffyg yn y Beibl ydyw, fod dynion yn ceisio ac yn methu cael ynddo beth nad ydyw y Beibl yn rhoddi lle cyfiawn i ddisgwyl i'w gael yno. Gosoder y bai i orphwys lle y mae yn ddyledus; a b'le hyny ond ar benau y rhai hyny o'i amddiffynwyr proffesedig, y rhai, mewn iaith chwyddedig, ydynt yn haeru fod y Beibl, *bob darn o hono*, yn air Duw, ac felly yn anffaeledig. Mae amddiffynwyr *ysprydoliaeth geiriol*, yn anfwriadol mae'n wir, wedi bod, ac yn parhau i fod, yn offerynol i agor y drws i anffyddiaeth. Beth a ddywed yr uniongred yn ngwyneb hyn? Euog, ynte dieuog? Y maent wedi bod yn hir yn drwgliwio ac yn condemnio Undodiaid, am sefyll dros ddefnyddio rheswm a moddion cyrhaeddadwy eraill, er ceisio deall ac egluro yr Ysgrythyrau Santaidd, a dangos cyssondeb eu hathrawiaethau â gwirioneddau eraill adnabyddus ac anwadadwy. Wrth bob argoelion, daw dydd i "brysur bwyso" eu haeriadau hwy a ninau, maes o law, a hyny cyn y delo dydd y farn olaf. Yn y cyfamser, y mae galwad ar bawb o honom i ddwys-chwilio am y gwir yn matterion pwysig crefydd—pob un i chwilio a barnu drosto ei hun, fel yn ngwyddfod Chwiliwr y calonau, ac i fod yn wyliadwrus ac yn barod i "roddi rheswm am y gobaith sydd ynom."

Ond i ddychwelyd at ddiwygiad Luther a'i ganlyniadau mewn perthynas â'r cwestiwn dan ystyriaeth. Un o brif ffrwythau y diwygiad hwnw oedd gosod y Beibl yn nwylaw y bobl, a'u hannog i'w ddarllen a'i gredu, ac i ufuddhau iddo er iechydwriaeth eu heneidiau. Ac yn ddiau ffrwyth o ddirfawr werth ydoedd hwn. Ymdrechai y diwygwyr yn lew, a safasant yn gadarn dros hawl a dyledswydd pob dyn i ddarllen yr Ysgrythyr Lân, ac i farnu drosto ei hun, yn lle derbyn eu haddysgiaeth ysgrythyrol ar ail law oddiwrth offeiriaid Eglwys Rhufain. Gwaith da dros ben oedd hyn hefyd. Ac ar yr un pryd yr oedd Rhagluniaeth, mewn modd rhyfedd o anarferol, wedi agor ffordd a darparu moddion, er dwyn oddiamgylch ac hwylusu y gwaith da. Trwy syrthiad Constantinopl, gwasgarwyd Groegwyr dysgedig ac eraill oeddent yn hyddysg yn ieithoedd Canaan, fel yn fuan y daeth adfywiad ar ddysgeidiaeth trwy wledydd Ewrop, a daeth ysgolheigion lawer yn alluog i ddarllen yr Ysgrythyrau yn yr ieithoedd gwreiddiol, ac i'w cyfieithu i ieithoedd y gwahanol wledydd—yr hyn orchwyl olaf, er coroni'r cwbl, a gyflawnwyd gan y diwygwyr. Bydded cydnabyddiaeth barchus iddynt am eu hymdrech a'u llafur! Cofier hefyd fod y gelfyddyd o argraffu newydd ei chael allan; ac un o'i ffrwythau cyntaf oedd amlhau copïau o'r Beibl trwy yr argraff-wasg. Dyma'r Beibl genym yn awr, bob un yn iaith ei wlad. Ac yn bresennol gwerthir Beiblau yn rhatach braidd nag un llyfrau eraill; am hyn yr ydym yn ddyledus yn bennaf i ymdrechiadau y Beibl Gymdeithas. Am weithrediadau y Gymdeithas, bydd genym air neu ddau i'w ddywedyd cyn darfod â'r pwnc. Ond yn awr dychwelwn at yr egwyddor Brotestanaidd, sef hawl a dyledswydd pob dyn i ddarllen y Beibl a barnu drosto ei hun.

A gadael cwestiynau ynghylch gwybodaethau celfyddydol, y mae Protestaniaid yn proffesu cyttuno ar yr egwyddor gyffredinol mai y Beibl ddylai gael torri pob dadl mewn pethau crefyddol. A ydynt wedi cadw yn gyson

ac yn onest at yr egwyddor hon? Yr oedd y Diwygwyr, wrth gwrs, yn claimio i eraill fel iddynt eu hunain, ac i'w holynyddion yr un modd, gyflawn hawl i ddarllen yr Ysgrythyrau ac i farnu drostynt eu hunain am eu cynnwysiad; onite buasai cystal i adael y Beibl yn ngofal Eglwys Rhufain. Trwy ymresymu ar yr athrawiaethau a ddysgir yno, y llwyddasant i ddynoethi twyll Pabyddiaeth; gan annog eraill, trwy eu esiampl, i *arferyd eu rheswm* wrth ddarllen yr Ysgrythyr, a chydnabod i eraill, tebygid, yr un mor gyflawn hawl i wahaniaethu oddiwrthynt hwy ag oedd ganddynt hwy i wahaniaethu ac ymneillduo oddiwrth Eglwys Rhufain. Dyma ydoedd egwyddor broffesedig y Diwygiad. "Wele air Duw," meddent, "yn cael ei gynnyg i bawb o honoch yn yr iaith y'ch ganed, ac yn appelio at ddeall a chydwybod pob dyn: dyma unig rëol ffydd ac ymarweddiad: derbyniwch ef fel y cyfryw, gan lwyr ymwrthod â thraddodiadau ac awdurdodiadau dynol o ba fath bynag." Ysgwaethyroedd, methwyd cadw at hyn yma. Yr oedd peth o'r hen lefain trawsarglwyddol etto yn aros. Cymmerwyd dalen allan o lyfr yr hen Eglwys erlidigaethus. Ar y ddalen hono y gwelwn, wedi ei ysgrifenu yn ngwaed merthyron, "Cyfiawn a doeth ydyw i ddinystrio cyrph dynion, er mwyn achub eu heneidiau." A beth ar ol hyny oedd *iaith ymddygiad* yr awdurdodau a'r llywodraethau a bleidiasant y diwygiad? Onid hyn?—"Derbyniwch, darllenwch yr Ysgrythyrau: y mae hawl i bob un i farnu drosto ei hun; ond gocheled y cospedigaethau a'i goddiweddant ef, os bydd iddo gredu a dysgu dim ag sydd yn groes i'r hyn y'm ni yn ei ddeall ac wedi ei sefydlu." Mewn gwirionedd, y mae y Beibl wedi cael cam-driniaeth ar law rhai a broffesent fod ei gyfeillion a'i goleddwyr gwresocaf.

Ysprydoliaeth yr Ysgrythyrau—Beth ydyw? Ai y llythyren farw; ynte yr ysprydsydd yn bywhau? Yn awr, i'n deall ni, nid peth a berthyn i sylwedd *dideimlad*, *difeddwl*, ydyw ysprydoliaeth, eithr agwedd neu weithrediad ydyw ag a berthyn yn unig i *feddwl byw;* a phob amser y mae a wnel â *deall*, *teimlad*, a *chydwybod*. Am hyny, nid cymmwys hollol yw dywedyd fod yr ysgrifen—y llythyren yn ysprydoledig, nac ychwaith fod y llyfr, neu'r casgliad o'r ysgrifeniadau santaidd, yn ysprydoledig. Ond yn hytrach priodoler yr ysprydoliaeth (gan nad beth a farner am ei natur a'i helaethrwydd) i'r ysgrifenwyr ysprydoledig a'r personau ysprydoledig yr ysgrifenir am danynt. I'r graddau y galluogir y darllenydd neu'r gwrandawr i gydweled a chyd-deimlo â'r ysgrifenydd, i'r graddau hyny gellir dywedyd ei fod yn cyfranogi o'i ysprydoliaeth. Ond y mae y llythyren ysgrifenedig hefyd o werth amhrisiadwy. Er nad ellir yn gyfiawn ddywedyd mai gair Duw yw y Beibl, bob darn o hono, o'r dechreu i'r diwedd, y mae yn ddigon ei fod (fel y credwn) yn *cynnwys* gair Duw—cofnodiadau gwirioneddus o ddigwyddiadau ag ydynt o'r pwys a'r diddordeb mwyaf. Gochelwn lyfr-addoliaeth. Cadwn mewn côf nas dichon yr un o fynegiadau dadguddiad Dwyfol fod yn groes i ffeithiau gwybodaeth naturiol. Etto parchwn a gwerthfawrogwn yr Ysgrythyr, fel y ddolen anhebgorol i'n cyssylltu â ffynonell gwir ffydd, diddanwch, a rhinwedd, a gobeithion cysurlawn ac annogaethau grymus y byd a ddaw; a chyfrwng daionus ein cyfranogiad o'r ysprydoliaeth nefol.

Ond rhag blino y darllenydd, rhaid gadael ar hyn, i gael dychwelyd at y pwnc ar gyfleusdra dyfodol.

I.

YCHYDIG YSTYRIAETHAU AR WEITHREDOEDD NATUR.

O Dad, Creawdwr y bydysawd, a Chynhaliwr pob creadur byw, mor fawr yw dy fawrhydi! O mor aml yw'r rhyfeddodau y dadleni o flaen llygaid dyn! Dy law sydd wedi estyn allan y nefoedd, ac wedi eu plannu â sêr. Heddyw yr ydwyf yn gweled yr haul yn bywhau natur, ac yn fflamio uwch y terfyngylch mewn dysgleirdeb gogoneddus; ond feallai cyn gwawrio dydd arall, na fydd dim o'r gelltydd, na'r maesydd, na'r dyffrynoedd, yn dadseinio peroriaeth yr adar mwyn i mi. Yr wyf yn teimlo mai marwol ydwyf; y mae fy nerth yn darfod fel blodeuyn y glaswelltyn ac yn gwywo fel dalen Hydref; nis gŵyr y mwyaf ei nerth yn ein plith pa mor gynted y clywa yr alwad ofnadwy, "O ddyn, dychwel i'r llwch!"

Pan y byddom wedi ein gosod yn isel yn y bedd, lle mae tywyllwch a distawrwydd galarus yn teyrnasu; pan y byddo'r abwyd yn ymborthi ar y cyrff a fu unwaith mor deg; pa beth a erys i ni o'n meddiannau daearol? Oni fyddwn ni wedi eu colli i gyd, er fod ein dymuniadau mwyaf wedi cael eu boddloni, a chwppan ein dedwyddwch wedi bod, yn ystod ein bywyd, yn llawn?

Mor ffol ynte ydyw gosod gormod serch ar bethau darfodedig y byd hwn! Ymorchestu am olud mawr; bod yn rhy awyddus am anrhydedd gwag a darfodedig; a thrwy oddef ein hunain i gael ein dallu a'n camarwain gan ddysgleirdeb gau eu swynion melldigedig, i gyfnewid diniweidrwydd a thangnefedd meddwl, am genfigen, balchder, a thwyll!

Os ydym, trwy fod yn rhy awyddus yn ein chwennychiadau, wedi dilyn lledrith cyfoeth tuhwnt i derfynau cyfiawn cymmedroldeb, ymostyngwn ger bron Duw, a derbyniwn y gosp a ddichon ei ddoethineb ef weinyddu.

Y mae dyn, wedi ei ddallu gan ei falchder a'i ryfyg, yn dymuno gosod i lawr gyfreithiau i'w Greawdwr, ac yn beiddio beio ordinhadau Doethineb Tragywyddol. Ond y mae'r Tad hollalluog a chariadlawn, cyfaill dyn, yn ei garu yn well nag y mae yn caru ei hunan trwy wrthod rhoddi iddo ei ddymuniadau ffol.

Pan byddo'r boreu yn agor i'n golygon llawen, y caeau gleision a'r blodau amryliw yn emmedig â gwlith, ac adenydd y nos wedi claiaru gwres llosgadwy yr haf, y mae Doethineb yn llefain arnom, Paham y megwch yn eich mynwesau feddyliau galarus am y dyfodol? Paham y rhoddwch eich hunain i fynu i betrusder a gofalon sydd yn trymhau y galon? Onid Duw yw ein Tad? Ac onid ydym ni yn blant iddo? Nid yw ein bywyd ni yn gyfyngedig i'r ddaear hon; yr ydym etto i gyfarfod yn y nefoedd. Nid yw ein bywyd presennol ond megys am foment; ac nid yw ein dedwyddwch daearol mwyaf ond megys breuddwyd; yr ydym wedi ein amcanu at gyflwr arall, cyflwr lle byddwn ni oll yn anfarwol.

Y mae'r ystyriaeth am anfarwoldeb yn cyfodi ein heneidiau uwchlaw'r bydysawd a'r holl fydoedd wybrennol tuag at ffynhonnell dragywyddol gogoniant a goleuni.

Pan y byddom yn cael ein hudo gan bleserau gau oddiar lwybr rhinwedd, deffröed ystyriaethau o'r fath yma ein calonnau i feddwl am ein dyledswydd, ac i gredu nas gall gwir bleser byth gyfodi ond yn unig oddiar ymwybodaeth ein bod yn arfer ein amser a'n talentau er lledaenu gwirionedd a phob daioni! Y mae'r anrhydedd y mae'r drwg yn ei gyrhaedd trwy foddion anghyfiawn,

ar fyr yn diflannu; ac y mae chwerwder ing yn canlyn ei ogoniant darfodedig, a'i bleserau gau, camsyniol, ac ansafadwy.

Nid ydym ond megys pererinion yn teithio trwy wlad, ar gyffiniau pellaf yr hon ydym yn canfod pelydrau gogoniant yn dysgleirio; ac ni ddylai dim llai na hyn feddiannu ein calonnau: heb ein hudo gan bleserau, ac heb ein dallu gan y dysgleirdeb, a'r cyfoeth, a'r anrhydedd, a fuasai yn ein denu ni oddiar yr unig wir lwybr tuag at ddedwyddwch tragywyddol, dylem ddal yn ddiysgog ar ein taith, yn yr hyder sydd yn cyfodi oddiar uniondeb, a rhinwedd, a gonestrwydd; gan weddio ar yr Hollalluog Dduw, yr hwn a wylied drosom gyda phleser a chariad Tad, ar fod iddo Ef, yn anfeidroldeb ei ddaioni, dyneru ein calonnau, fel na chaledont dan y gwahanol amgylchiadau a ddelo i'n cyfarfod ar ein gyrfa ddaearol, ac y byddo i'n holl feddyliau ni i gael eu puro gan gariad a chrefydd; na fyddo i ni chwennych ardderchawgrwydd allanol, ond bod yn foddlon i'n sefyllfa, yn ffyddlon yng nghyflawniad pob dyledswydd, ac yn deilwng o gael ein galw yn Gristnogion.

Gorphenaf 31*ain*. C. C. STURM.

CYFARCHIADAU YMHLITH GWAHANOL GENHEDLOEDD.

YN y Dwyrain y mae'r ymadroddion yn tebygoli fwy neu lai i iaith yr Ysgrythyrau. Y maent agos i gyd yn tarddu oddiar ryw fath o deimlad crefyddol, ac y maent yn dymuno tangnefedd i'r rhai hyny a gyferchir ynddynt.

Ystyr y cyfarchiad a arferir gan yr Arabiaid, sef *Shalwm* neu *Salem* yw tangnefedd. Y mae'r Arab yn cyfarch ei gyfaill fel yma: "Rhodded Duw i ti fore dedwydd;" "Rhodded Duw ei ffafr;" "Os yw Duw yn ewyllysio, yr wyt yn iach." Y mae gan y Tyrciaid ymadrodd yr hwn nis gellir ei arfer ond mewn ardal heulog—"Na foed eich cysgod byth yn llai." Y mae gwlad yr Aipht yn wlad dwymynol iawn, ac y mae yn angenrheidiol er mwyn iechyd fod dyn yn chwysu llawer iawn; felly y mae'r Aiphtwr yn gofyn pan cyfarfyddo â chwi, "Sut yr ydych chwi yn chwysu?" "A ydych chwi wedi bwytta?" "A ydyw'ch stymog mewn trefn dda?" ydyw gofyniadau y Chinëaid—iaith gyffrous, onide? wedi tarddu mae'n debygol oddiar gariad anniwall at fola-lanw. "Bydd lawen," meddai'r Groegwr, neu, "Bydded i ti." Yr oedd y Rhufeiniaid, y rhai oeddent hynod am eu dewrdra, yn nodi nerth a bywiogrwydd yn eu cyfarchiadau: "Bydd gadarn;" "Beth yr ydwyt yn ei wneuthur?" Dywed y Neapolitaniad, "Cynydda mewn santeiddrwydd;" a'r Piedmontiad, "Dy was ydwyf fi." Cyfarchiad cyffredin hefyd trwy holl Itali yw, "Sut yr ydych yn sefyll?" Y mae'r Spaniard gyda'r diofalwch mwyaf yn dymuno "Bore da i chwi." Yr ydym ninau yn atteb, "At eich gwasanaeth syr." Cyfarchiad arall ymhlith y Spaniards yw "Duw fo gyda chwi." Cyfarchiad mwyaf cyffredin y German yw, "Sut mae'n myned?" yr hwn sydd i ryw raddau yn gosod allan natur haner-breuddwydiol y Germans. Wrth ymadael, y mae yn dywedyd, "Bydd fyw yn dawel ac yn ddedwydd." Gofyna'r Hollander, "Sut yr ydych yn myned?" Ac y mae'r Swedenwr yn gofyn, "Am beth yr ydych yn meddwl?" Tra mae'r Daniad tawel yn dywedyd, "Bydd byw yn dda." Ond cyfarchiad trigolion Poland yw'r goreu o lawer, "A ydych chwi yn ddedwydd?" Y mae gan y Sais ei *Good bye*, yr hwn sydd fath o lygredd o *Good be with you*, neu, "Da fo gyda chwi." Ond yr hwn sydd yn dangos caracter y Sais oreu ydyw, "Sut yr ydych yn gwneuthur?" (How *do* you do?) yn gymmaint a bod bywiogrwydd y bobl yn cael ei osod allan yn yr arferiad yma o'r gair *do* ddwy waith.

C. F.

COFIANT THEOPHILUS LINDSEY.

Coffadwriaeth y cyfiawn sydd fendigedig."—SOLOMON.

(Parhad o tudal. 191.)

ERBYN hyn, yr oedd yr achos yn *Essex Street* yn dechreu blodeuo tu hwnt i bob disgwyliad. Yr oedd y capel yn orlawn bob Sabboth o wrandawyr astud a difrifol, ac yn cael ei lanw i'r fath raddau, fel yr oedd y cyfryw hyny oeddynt yn dyfod yn rhy ddiweddar, yn gorfod myned ymaith o ddiffyg lle. Nid ydyw felly, er gwaetha'r modd, gyda ni yn y dyddiau presenol, mewn llawer iawn o'n capeli, beth bynag.

Ymhen ychydig amser ymhellach, wele lawer o ddynion parchus a chyfrifol yn rhoddi eu henwau i mewn fel tanysgrifwyr at y draul yn y capel, yn gystal â thalu at gynaliaeth y gweinidog. Ymhlith y cyfryw yr oedd y diweddar Syr George Saville, yr hwn oedd yn aelod seneddol dros Swydd York; ac amrywiol ereill nad yw yn un diben i ni eu henwi. Ond er mor gyssurus yr oedd gwrthddrych ein cofiant, ar yr amser a nodwyd, nid ydym i gasglu fod yr haul yn tywynu yn rhy danbaid arno, ac fod y cymylau a'r tywyllwch caddugawl wedi ffoi yn gyfangwbl. O na! yr oedd rhagfarn yn uchel iawn ei ben y pryd hyny, fel y mae hyd y nod yn y dyddiau presenol, yn erbyn Undodiaeth; ac yr oedd rhai o'i gyfeillion yn ofni rhyw ganlyniadau gofidus. Derbyniodd Mr. L. lawer o lythyron heb enwau wrthynt, yn y rhai y bygythid ef yn y dull mwyaf dychrynllyd ac ofnadwy. Ond ni fuont yn foddion i ddigaloni dim braidd arno ef. Na; yr oedd yn benderfynol i fyned rhagddo, yn nerth y Nef, yngwyneb pob anhawsder a digalondid. Ymddengys nad oedd dim yn aflonyddu ei feddwl gymaint a'r chwedl anwireddus oedd wedi cael ei gosod ar droed, gan ei elynion wrth gwrs, sef, mai dibenion personol oedd ganddo mewn golwg, ac y buasai yn gwneuthur yn well wrth symud i Lundain, trwy dderbyn mwy o gyflog, na thrwy aros yn y man y bu, sef yn yr Eglwys Sefydledig.

Yr oedd ei wrthwynebwyr yn awyddus dros ben i ddyfeisio rhyw ffordd fel y gallent ei osod i lawr; ond gallwn ddywedyd mewn perthynas iddynt fel ag y dywedodd Dr. Franklin, er ys llawer dydd yn ol, am yr hwn oedd wedi talu gormod am ei bibell, sef: "Druan ddyn, yr wyt yn gamsyniol," &c. Ac er bod y chwedl uchod wedi ei aflonyddu yn fwy na dim arall, y mae yn dywedyd mewn perthynas iddi mewn llythyr a ysgrifenodd at ei gyfaill yn Wakefield, sef Mr. Turner, dyddiedig Mehefin 13eg, 1774: "Y mae genym yn awr o gylch 30ain o enwau ar y llechres, fel aelodau, y rhai sydd wedi hyspysu eu bwriad, ac y mae rhai o honynt wedi dweud beth fyddant i gyfranu, ymhlith pa rhai Syr Bernard Turner yw y trymaf o lawer. Yr wyf yn dywedyd hyn, nid yn herwydd fy mod yn petruso dim ynghylch darpariaeth gogyfer a mi fy hunan a'r gymdeithas, ond fel y byddoch yn gwybod beth ydyw ein sefyllfa; oblegid yr wyf wedi clywed fod y chwedl yn myned ar draws tref a gwlad, fod genyf sefyllfa yn bresenol oddiwrth yr hon yr wyf yn derbyn £400 yn a flwyddyn; ac fy mod yn gwybod cyn ymadael o Catterick sut gyfnewidiad yr oeddwn yn myned i'w wneuthur: y mae yn rhaid i mi ddisgwyl clywed y fath chwedlau." &c.

Er dangos nad oes un gwirionedd yn y dywediad uchod, cawn ddyfynu ychydig o linellau a ysgrifenodd un o'i hen gyfeillion yn Swydd York at gyfaill arall; "Cefais yr hyfrydwch o weled fy hen gyfeillion teilwng, sef

Mr. a Mrs. Lindsey, mewn iechyd ac ysprydoedd gweddol dda; ond nid yw efe yn y sefyllfa uchel hyny ag yr oedd y rhan fwyaf yn Swydd York yn credu. Y mae y lletty y maent yn byw ynddo yn bresenol yn rhy gyfyngedig, yn anghyfleus, ac yn drud iawn. Ond y mae yr achos y mae Mr. L. yn llafurio o'i blaid yn foddion i'w wneud yn dawel ac ymfoddlongar," &c.

Fel yr oedd yn myned rhagddo, yr oedd anhawsderau a gwrthwynebiadau yn cryfhau ac yn amlhau, ac nid hir y bu cyn gweled yn amlwg fod yn rhaid iddo amddiffyn ei hunan trwy y wasg, ynghystal ag o'r pwlpud, mewn gwrthwynebiad i gam-ddarluniadau a wnaed yn ei gylch ef yn bersonol, ac hefyd yr athrawiaeth yr oedd yn goleddu. Ymhlith ei wrthwynebwyr yr oedd Mr. Burgh, Bingham; a Dr. Randolph o Rydychain. Yn gynar yn y flwyddyn 1776, ymddangosodd llyfr o'i waith mewn gwrthwynebiad i'r dynion uchod, ac mewn hunan-amddiffyniad; yr hwn sydd yn cynwys ymchwiliad i'r cwestiynau hyny, mewn perthynas i nattur a pherson Crist, a pha beth yw yr addoliad sydd ddyledus iddo. Fe fuasai yn dda iawn genym, pe bai amser a gofod yn caniattâu, i ddyfynu ychydig linellau o hono yma a thraw; ond pe baem yn gwneuthur hyny, yr ydym yn ofni y buasem yn blino amynedd darllenwyr yr YMOFYNYDD yn gynt na phryd, fe ddichon. Gan hyny cawn frysio ymlaen.

Gan fod gwaith Mr. L. yn cynyddu yn gyflym iawn yn ac allan o'r pwlpud, a chan ei fod wedi bod yn rhy anochelgar ynghylch ei gyfansoddiad, o ran corph a meddwl, yr oedd yn awyddus iawn i gael cynorthwywr i gario'r achos yn y blaen, bellach. Darfu iddo roddi galwad neu wahoddiad i ddau neu dri o ddynion galluog a chymwys, i gydweinidogaethu ag ef; ac er nad oedd ei gyflog ond £100 yn y flwyddyn, yr oedd yn foddlon rhoddi i fynu ei haner. Y mae yn dywedyd mewn llythyr a ysgrifenodd at un o'r cyfryw rhywbeth yn debyg i'r hyn a ganlyn:—"Rhwng pob peth yr wyf yn cael can' punt yn y flwyddyn, ac yr wyf yn eithaf boddlon i'w ranu; ar yr un pryd, nid oes genyf un amheuaeth na fydd y gynnulleidfa yn eithaf boddlon i wneud rhagor." Ond, er pob peth, cafodd ei siomi yn ei ddisgwyliad dros rywfaint o amser wedi hyny: o ganlyniad, cafodd ei adael i ymladd y frwydr ei hunan. Ond yr oedd Duw gydag ef, a daliodd achos a chydwybod dda ef i fynu, a chafodd nerth yn ol y dydd. Bu yn gweinidogaethu dros ddeg mlynedd ar ei ben ei hunan i gynulleidfa luosog a chynyddol, a'r holl aelodau yn edrych i fynu atto, ac yn ei barchu â pharch didwyll; a llawenychodd llawer o honynt ei galon wrth weled y cynydd oeddynt yn gwneuthur mewn gwybodaeth ac ymhob rhinwedd. Mewn gair, "Awn rhagom," oedd *motto* y gweinidog a'r aelodau, gan ystyried yn ddiamheuol mai—

"Llafurio'n wrol a dibaid,
I bawb sydd raid ei wneuthur;
Os mynnant fedi cyflawn lwyth
O hyfryd ffrwyth eu llafur."

Fel yr oedd y gynnulleidfa yn cynnyddu, a phob argoelion yn dangos yn amlwg ei bod i gynnyddu mwy drachefn; gwelwyd a theimlwyd ei fod yn anhebgorol angenrheidiol i gael lle addoliad mwy cyfleus; ac wedi siarad yn bwyllog, a chymeryd y matter dan ystyriaeth ddifrifol, cyttunwyd i brynu y *premises* yn Heol Essex; a thrwy gyfraniadau helaeth cyfeillion a noddwyr yr achos, cafodd Mr. L. ei alluogi i ddwyn ei amcan i weithrediad. Dibenwyd y gwaith yn gynar yn y Gwanwyn, yn y flwyddyn 1778; ac agorwyd

y capel newydd y 29ain o Fawrth, pryd y traddododd y gweinidog bregeth ragorol ar Undod Duw, ac ar ysprydolrwydd addoliad dwyfol, oddiar Ioan iv. 23, 24: "Ond dyfod y mae yr awr, ac yn awr y mae hi, pan addolo y gwir addolwyr y Tad mewn ysprydd a gwirionedd; canys y cyfryw y mae y Tad yn eu ceisio i'w addoli ef. Ysprydd yw Duw, a rhaid i'r rhai a'i haddolant ef, addoli mewn ysprydd a gwirionedd." Cyhoeddwyd y bregeth, yn nghyd â'r gweddiau, ar yr achlysur dan sylw, mewn ychydig o amser wedi hyny. Erbyn hyn, yr oedd pob gwrthwynebiad a phob anhawsder wedi ei symud ymaith, ac yr oedd pob peth yn myned ymlaen yn bur gysurus a llwyddianus. Yr oedd Mr. L. yn feddianol ar iechyd gweddol dda, ac ar ysprydd gwell, os oedd bosibl; ac os nad oedd mewn amgylchiadau uchel, yr oedd uwchben ei wala o bob peth angenrheidiol. Yr oedd ei gyfeillion yn lluosog, ac yr oedd ef wedi ei gwneud yn rheol y mae'n debyg, i ymweled â rhai o honynt yn ddyddiol, fel yr oedd amgylchiadau ac amser yn caniatau, er siarad ac ymresymu â hwynt.

Ymhen ychydig amser ymhellach, chwyddodd y gynnulleidfa nes oedd pob cwr yn weddol lawn; ac yr oedd pob un o'r gwyddfodolion yn gwrando yn astud a difrifol ar y pregethwr yn traddodi "y newyddion da o lawenydd mawr" i'w clywedigaeth, fel apostol i Iesu Grist. Ar y llaw arall, yr oedd yntau at ei ryddid i chwilio yr Ysgrythyrau, ac i osod allan ei feddwl arnynt, heb fod yn attebol nac yn ddarostyngedig i neb dynion, ond i Dduw yn unig. Os rhoddodd neb i fynu sefyllfa uchel oddiar argyhoeddiad trwyadl, pan nas gallai ei llanw yn hwy heb achosi poen yn y fynwes, a hyny heb ddisgwyliadau gwell, yr oedd Mr. L., bid sicr, yn un o'r cyfryw. As os profodd rhyw ddyn erioed yr addewid efengylaidd, sef, y cai pob un sydd yn ymadael â phob peth er mwyn Crist a'i athrawiaeth, y "can cymaint yn y byd hwn ac yn y byd a ddaw," y mae yn sicr iddo ef gael prawf o'r addewid; ac yr oedd yn argyhoeddiadol o hyny ei hunan; oblegid y mae yn dywedyd, "ei fod wedi llwyddo ymhell tu hwnt i'w ddisgwyliadau mwyaf pryderus."

Yn mis Hydref, yr un flwyddyn, bu dros rywfaint o amser mewn twymyn beryglus iawn. Yr oedd rhai o'i gyfeillion mewn pryder mawr iawn yn ei gylch, ac yn ofni na fuasai yn gwella; ond trwy drugaredd, gwella a wnaeth heb fod yn hir; ac wedi adenill tippyn o'i nerth blaenorol, ymaflodd yn ei waith o ddifrif drachefn, gan gyflawni ei swydd fel gweinidog, ac ysgrifenu llawer o bethau mewn amddiffyniad i'r gwirionedd, hyd nes iddo braidd dreulio ei holl nerth drachefn. Ac yn herwydd hyny, yr oedd yn awyddus dros ben i gael cyd-lafurwr yn yr un winllan, ac i gyd-ymdrechu o blaid yr un achos. Wedi iddo gael ei siomi gan un a'r llall, wele un yn dyfod ymlaen yn y diwedd, ar hyd yr un llwybr ag ef ei hunan, sef Dr. Disney, yr hwn a roddasai i fynu ei eglwysi yn Panton a Swinderby yn herwydd y cyfnewidiadau pwysfawr oedd wedi cymeryd lle yn ei feddwl ar wahanol bynciau crefyddol, yn neillduol y Drindod lân fendigaid a'r pechod gwreiddiol. Bu ef yn cyd-weinidogaethu â Mr. L. o'r flwyddyn 1782 hyd y flwyddyn 1793, sef un-mlynedd-ar-ddeg, pryd y rhoddodd Mr. L. y weinidogaeth i fynu yn herwydd methiant, fel y cawn sylwi etto. Bu Dr. Disney, o ganlyniad, yn gweinidogaethu ar ei ben ei hun o'r flwyddyn 1793 hyd 1805, pryd y rhoddodd efe ei swydd i fynu, wedi bod yn weinidog yn Heol Essex am 23ain o flynyddoedd.

Gan fod mwy o hamdden gan Mr. L. wedi i'r digwyddiad uchod gymeryd lle, danfonodd i'r wasg yn gynar yn y flwyddyn ganlynol, sef 1794, ei

"*Historical View*," sef, "Golwg Hanesyddol ar yr Athrawiaeth Undodaidd," &c., oddiar y Diwygiad i lawr hyd at ei amser ei hunan, gyda rhai hanesion o'r gwrthwynebiadau yr oedd wedi gyfarfod mewn gwahanol dymhorau. Y mae Mr. Belsham yn dywedyd fod hwn yn un o'i gyfansoddiadau goreu a mwyaf pwysfawr. Mewn un man ynddo, y mae yn dywedyd (mewn atebiad i Esgob Butler, yr hwn oedd yn llettya rhyw ddrychfeddyliau hynod iawn mewn perthynas i gymeriad y Bod Dwyfol a'i ragluniaeth), "Yn ei *Analogy* y mae yn gosod allan y byd fel pe bai yn ei ymddangosiad fel adfeiliad (neu *ruin*, fel y dywed y Sais), a dynolryw mewn cyflwr o ddiraddiad. Bid sicr," meddai Mr. L., "nid yw hyn amgen na darluniad o'r ochr dywyll ar bethau, trwy roddi hanes anghywir ac anwireddus am ein cyflwr presenol." Gwel tudal, 151. Ac yna y mae yn ychwanegu, trwy ddywedyd, "Pell, a phell iawn, yw y byd ydym yn byw ynddo o fod yn resynus ac annedwydd; eithr yn y gwrthwyneb; ac yr wyf fi yn meddwl nad oes gan neb reswm i roddi dros ei osod allan y fath, yn y cyffredin, beth bynag, pa gymaint bynag y mae rhai dynion wedi ddioddef. O'm rhan fy hunan, y mae yn rhaid i mi ddywedyd, fod fy nghyflwr a'm sefyllfa wedi bod y mwyaf dedwydd, oddiar pan gefais fodoliaeth hyd yn bresenol; ac er fy mod wedi fy niogelu rhag trallodion neu helbulon annioddefadwy, eto i gyd nid wyf wedi bod yn hollol rydd oddiwrth gyfnewidiadau a chaledi; ond y mae llaw gariadlawn rhagluniaeth wedi bod yn weladwy ynddynt oll, ac yn peri iddynt gydweithio er daioni; ac yn neillduol y mae genyf wir achos i siarad yn dda am y cyfryw hyny o'm cyd-greaduriaid yr wyf wedi dyfod i adnabyddiaeth â hwynt, ac ymhlith pa rhai y mae fy nghoelbren wedi syrthio; ni ddymunwn gael gwell cyfeillach byth na chyfeillach y cyfryw yr ydwyf wedi adnabod, wedi parchu, ac wedi darllen am danynt; a phan bydd yn rhaid i mi gefnu ar y byd presenol, byddaf yn cefnu arno fel ymwelydd wedi cael ei foddloni yn dda, gan deimlo yn ddiolchgar am fy mod wedi treulio cymaint o ddyddiau dedwydd, ac wedi byw i weled ac i deimlo cymaint o ddaioni fy Nghreawdwr, ac wedi cael fy mendithio â gwybodaeth am gymaint o gymeriadau da a gwerthfawr ymhlith fy nghyd-ryw," &c.

Dyna fel yr oedd ef yn teimlo, ac yr ydym yn meddwl mai felly y dylai y rhan fwyaf o lawer, beth bynag, o ddynolryw deimlo. A diamheuol yw, fod mwy o ddedwyddwch yn syrthio i ran pob un o honom na'r gwrthwyneb; a phe baem yn cael ein tueddu i feddwl a myfyrio cymaint ar yr ochr orau ag ydym ar yr ochr waethaf, yr ydym yn credu yn drwyadl y byddem yn fwy dedwydd fyth.

Bellach, y mae yn rhaid i mi dynu tua'r terfyn. Wedi i Mr. L. fod yn gweinidogaethu am yn agos i ugain mlynedd yng Nghapel Heol Essex, yn gynar yn y flwyddyn 1793, pan oedd wedi cyrhaeddyd y "deng mlynedd a thri ugain," penderfynodd rhoddi y weinidogaeth i fynu, er ei fod ar yr un pryd yn feddianol ar iechyd da, a'i holl gyneddfau yn fywiog; ac wedi iddo wneud ei benderfyniad (wedi meddwl ac ail feddwl ar y matter), ysgrifenodd at *Drustees* y capel, yn yr hwn y mae yn eu hyspysu ynghylch ei amcan neu ei fwriad i roddi i fynu ei swydd fel eu gweinidog, fel y canlyn:—"Y mae fy henaint a'm llesgedd cynyddol wedi yngan i mi, er ys tipyn o amser bellach, y priodoldeb a'r angenrheidrwydd o gymeryd y cam hwn. Yr wyf wedi penodi canol Gorphenaf nesaf i roddi i fynu fy swydd; ac yr wyf yn teimlo yn gysurus dan yr ystyriaeth fod Dr. Disney yn cynyg ei wasanaeth fel fy olynydd, yr hwn sydd wedi profi ei fod yn gymeradwy gan y gynulleidfa yn y cyflawniad o'i ddyledswyddau."

Ymhen ychydig amser, derbyniodd lythyr mewn attebiad i'r uchod, oddiwrth y *Trustees*, yn yr hwn y maent yn gosod allan eu pryder, ac mewn dull cymwys a chariadlawn neillduol yn ei gydnabod am yr aberth yr oedd wedi wneud mewn ufudd-dod i eirchion cydwybod dda, ac am ei wasanaeth yn achos y gwirionedd." Ar yr amgylchiad yna, sef pan yn ymadael, cyfansoddodd bregeth synwyrol a chymwys i'r amgylchiad; ac wedi iddo ei chyfansoddi, methodd a magu calon, fel y dywedwn ni yn gyffredin, i'w thraddodi i glyw y gynulleidfa, gan ei fod yn cael ei effeithio gymaint gan ei deimladau, wrth ddweud y gair olaf o'r pwlpud wrth gyfeillion mor wresog a didwyll. Ysgrifenodd llawer o'i aelodau atto, gan ddywedyd, "os y buasai yn pregethu ei bregeth ymadawol, na fuasent yn alluog i ddyfod i'r capel ar y pryd; a phe buasent yn credu y buasai yn dywedyd un gair am ei ymadawiad, fod yn rhaid iddynt absenoli eu hunain."

Yn awr, gallwn ddychmygu yn rhwydd, debygaf, beth oedd yn eu cynhyrfu i ddywedyd felly; sef eu parch gwirioneddol i'w gweinidog, a'u gofid dwys wrth feddwl fod y cyssylltiad dedwydd oedd wedi bodoli rhyngddynt am gymaint o flynyddau i gael ei dorri. O ganlyniad, cyhoeddwyd y bregeth (heb ei phregethu ynghyntaf), a dosparthwyd hi rhwng yr aelodau. Yn y rhagymadrodd, y mae yn dywedyd, "Gan fy mod wedi cyrhaeddyd y tymor hwnw mewn bywyd, pryd y mae y cyneddfau yn natturiol yn dadfeilio, y mae yn bryd i mi i roddi i fynu, i gyfarfod â llesgedd anocheladwy y nattur ddynol, mewn cyflwr anghyhoedd *(private station)*." Ei destun oedd, "Deled dy deyrnas." Y mae yn diweddu y bregeth rhywbeth fel y canlyn: "Ac yn awr, fy mrodyr, yr wyf yn ffarwelio â chwi; a chan fy mod am lawer o flynyddau wedi ymdrechu yn ddifrifol (pa mor amherffaith bynag oedd hyny) i'ch gwasanaethu yn Efengyl ein Harglwydd Iesu Grist, ac i ychwanegu at eich dedwyddwch amserol a thragwyddol. Yr wyf yn eich cyflwyno i Dduw ac i'w ragluniaeth y sy'n llywodraethu ac yn goruwchreoli pob peth; oblegid pa mor ymdrechgar bynag y dichon i ereill blannu a dwfrhau, y mae y cynnydd a'r ffrwythau i'w disgwyl oddiwrtho Ef. Nis gallaf fod yn ddigon diolchgar i Ragluniaeth ddwyfol am godi i fynu nifer o gyfeillion difrifol ac haelionus i mi, pan yn unig, ac yn amddifad o bob moddion i osod ar droed y lle hwn i addoli,—i gyduno yn yr amcan, ac am bob cymhorth oddiwrthych chwi ac ereill hyd y dydd hwn. Dedwydd, ïe, tra dedwydd, fydd y cyfryw hyny sydd wedi cael eu galw ymaith o'n blaen, a ninau, y rhai ydym ar ol, os byddwn yn wrthddrychau cymwys o drugaredd dwyfol, ac i gyd-gyfarfod â'n gilydd etto yn yr adgyfodiad diweddaf, heb gael ein hysgaru byth mwy; a chan nad oes un weithred, yn achos gwirionedd a rhinwedd, yn myned ar goll, dichon y gallwn gael gweled ein bod ni, yn ein cylchoedd cyfyngedig, wedi cael ein anrhydeddu, trwy gael ein gwneuthur yn offerynau i wneud daioni yn llaw ein Gwneuthurwr; ac yn neillduol fod ein tystiolaeth ostyngedig yn erbyn cyfeiliornad hen a pharhaol, mewn perthynas i'r anrhydedd a'r addoliad sydd ddyledus iddo Ef yn unig, wedi cael ei effeithiau bendithiol, yn nhrefn Rhagluniaeth, i ddwyn oddiamgylch gyfnod mwy perffaith, yr hwn yr ydym ni yn disgwyl, pryd y bydd gwybodaeth yn cynyddu, ac ewyllys da yn ffynu ymhob mynwes." Dyna fel y dibenodd Mr. L. ei bregeth ymadawol: y mae ei eiriau o werth i gael eu argraffu yn ddwfn ar galon pob bod rhesymol.

Wedi i Mr. Lindsey roddi i fynu ei swydd fel gweinidog, ysgrifenodd lawer iawn o bethau tra gwerthfawr, a llafuriodd yn galed o blaid yr un

achos hyd y flwyddyn 1801, pryd y cafodd ergyd o'r parlys *(paralytic stroke)* ysgafn, pan oedd ar ymweliad gydag un o'i gyfeillion yn ystod yr haf. Daeth yn well heb fod yn hir; ond tua diwedd mis Tachwedd, yn yr un flwyddyn, cafodd un arall, ac yr oedd ei gyfeillion yn meddwl na fuasai yn gwella drachefn, ond gwella a wnaeth; ac yn gynar yn y flwyddyn ganlynol ysgrifenodd draethodau meithion ar y "Llywodraeth Ddwyfol."

Ymhen rhai blynyddau wedi hyny, yr oedd yn amlwg i bawb ei fod yn gwanhau yn gyflym iawn, ac yn gogwyddo "tua'r tŷ rhagderfynedig i bob dyn byw." Yn yr haf, yn y flwyddyn 1808, yr oedd yr arwyddion yn dyfod yn fwy amlwg yn barhaus; ac ar ddydd Iau, y 27ain o Hydref, gorfu iddo gymeryd at ei wely. Ar y dydd Llun canlynol, yr oedd y dwymyn yn gafaelyd yn gadarnach yn ei gyfansoddiad, nes yr oedd braidd yn ddideimlad, heb gymeryd un sylw o neb, ac heb siarad dim. Ac ar ddydd Iau, y 3edd o Dachwedd, anadlodd yr anadliad olaf, yn 86 mlwydd oed. Barnai rhai oedd yn bresenol mai y gair olaf a lefarodd oedd, "Ewyllys Duw a wneler." Ond pa un ai darfu iddo ddweud hyny ai peidio, y mae yn dra sicr mai hyny oedd uchaf ar ei feddwl.

Pregethodd Mr. Belsham, yr wyf yn meddwl, ei bregeth angladdol ar y Sabboth canlynol, yn y Capel yn Heol Essex.

Bu Mrs. Lindsey fyw ar ei ol ef ddwy flynedd, pryd y gosodwyd ei gweddillion hithau yn y beddrod. Ac yn awr, wrth ddiweddu, yr ydym yn cael ein tueddu i ddweud, "Bydded fy niwedd i fel yr eiddynt hwythau."

E. W. L.

Cwmbach, Awst, 1861.

"NAC ESGEULUSWCH EICH CYDGYNULLIAD EICH HUNAIN."

GOCHELWCH yr arferiad o grwydro oddiamgylch i wahanol gyrddau. Dewiswch yr eglwys hono yr hon yr ydych yn barnu fydd fwyaf er eich adeiladaeth, ar y cyfan, ac yna ystyriwch hono fel eich cartref ysprydol, a byddwch yno bob amser. Y mae rhai yn ymddangos fel pe na byddai ganddynt un cwrdd rheolaidd; heddyw y maent yma, y foru acw; mewn un eglwys yn y bore, mewn un arall yn y prydnawn, ac mewn un arall eto yn yr hwyr. Os oes dieithr-ddyn yn pregethu un rhan o'r dydd, i'r hwn nid oes ganddynt rhyw barch neillduol, y maent yn gadael eu tŷ-addoliad eu hunain, ac yn chwilio am bregethwr yn y prydnawn. Y mae meddwl crwydrol felly yn cael ei feithrin, yr hwn sydd i'r eithaf yn niweidiol i dduwioldeb iachus. Dewiswch eich cwrdd eich hunan, a glynwch wrth eich dewisiad. Os yw yn iawn i un i adael ei dŷ addoliad ei hun, trwy gael ei hudo gan beth dibwys, neu er mwyn gochel rhyw lefarwr annyddorol, y mae yn iawn i bob un i wneuthur yr un peth; felly y mae eich tŷ addoliad yn llawn yn y bore ac yn wag yn y prydnawn. Y mae digon o gyfleusderau i Gristnogion i fwynhau cyfarfodydd cymdeithasol eraill, heb esgeuluso trefniadau rheolaidd eu cysegr eu hunain. Nid oes un dylanwad yn fwy niweidiol i gynnydd duwioldeb a chymeriad diysgog, nac yn fwy dinystriol i lwyddiant eglwys, na'r arferiad yma o grwydro o dŷ i dŷ, fel y mae cywreinrwydd neu wammalrwydd yn eich hudo chwi.—*Abbott's Christian Duty.*

CARIAD A GWYBODAETH.

Pregeth a draddodwyd yn Nghapel Heol Awst, Caerfyrddin, 23ain o Fehefin, 1861. *Gan Thomas Sadler,* Ph. D.

Gwedi ei chyfieithu gan Dr. Lloyd.

Philip i. 9--11.—"A hyn yr wyf yn ei weddio, ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy mewn gwybodaeth a phob synwyr; fel y profoch y pethau sydd yn gwahaniaethu rhyngddynt; fel y byddoch bur a didramgwydd hyd ddydd Crist, wedi eich cyflawni â ffrwythau cyfiawnder, y rhai sydd trwy Iesu Grist, er gogoniant a moliant i Dduw."

Mae geiriau cyntaf y testyn—"A hyn yr wyf yn ei weddio"—yn ein harwain yn ol at adnodau blaenorol—at rywbeth ag sydd gwedi cael ei ddywedyd gan yr Apostol, oddiwrth yr hyn y tarddodd y weddi. Mae ef gwedi bod yn dywedyd gyda pha fath ddiolchgarwch y mae efe bob amser yn cofio am y Philippiaid—gyda pha fath lawenydd y mae yn diolch i Dduw drostynt—gyda pha fath hyder a gobaith y mae efe yn edrych ymlaen at eu cynnydd ym mhob rhinwedd Cristionogol—a pha mor wresog oedd ei deimladau tuag atynt bob amser. Ac yna y mae yn chwanegu, "A hyn yr wyf yn ei weddio, ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy mewn gwybodaeth, a phob synwyr."

Cariad yn amlhau mewn *gwybodaeth!* Wel, gwedi'r cyfan, nid oes eisiau ysgariad yma! *Nis gallant fyw ar wahan! Er yn fynych nid oes yspryd da iawn rhyngddynt, etto fe ddylai fod bob amser; ac fe fydd yn sicr o fod yn y pen draw, pan y bydd y wybodaeth yn fwy perffaith. Mae y dyeithriad gwedi bod yn fynych yn boenus rhyngddynt; ond nis gall barhau yn hir. Nis gall y naill fyw heb y llall.

Pan y byddo *gwybodaeth* yn cyfodi'r *telescope* tua'r sêr, mae *cariad* yn ofni edrych trwyddo rhag iddi weled rhywbeth nad ydyw yn garu. Pan y mae gwybodaeth yn ddisgyn i berfedd y ddaear, ac yn chwilio yno am weddillion yr oesoedd gynt, mae cariad yn cilio yn ol rhag iddi ganfod rhywbeth a fyddo'n debyg i leihau ei ffydd yn Moses. A phan y byddo gwybodaeth yn cymeryd arno Feirniadaeth Fiblaidd, ac i chwilio allan ddwfn ystyr geiriau y Prophwydi a'r Apostolion, ac i holi'n fanol am ddechreuad y Gyfrol Santaidd; yna y mae cariad yn sefyll wrth ei ochr, yn ofnus iawn rhag iddi golli rhyw faint "o'r grâs a'r gwirionedd a ddaethant trwy Iesu Grist;" ac y mae gwybodaeth, weithiau, wrth weled ei dagrau, yn tyneru tuag atti, ac weithiau yn ei diystyru, ac yn ei gadael i gymeryd ei ffordd ei hunan! Ac yna y

* Haerir yn aml, hyd yn nod yn mhlith Undodiaid, nad oes a fynno cariad â gwybodaeth—mae'r peth mawr mewn crefydd yw *gwrteithio'r serchiadau* ac nid y *synwyr.* Mynych iawn y clywir y frawddeg ffol—"*less Theology and more Religion;*" h.y., llai o wybodaeth am Dduw, a mwy o Grefydd,—fel pe bai'n bossibl i gael crefydd heb wybodaeth am Dduw!

Y gwir yw, nis gellir cael y *cariad* at pa un y mae'r Apostol yn cyfeirio yn y testyn, ond trwy "wybodaeth a synwyr." Fel hyn y dylasai y geiriau gael eu cyfieithu, "A hyn yr wyf yn ei weddio, ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy *trwy* (en) wybodaeth a phob synwyr." *Gwybodaeth,* gyda'r Apostol, yw *sail* a *chynnaliaeth* cariad. A'r achos nad yw cariad yn amlhau fwyfwy yn mhlith Cristnogion yw, am nad ydynt yn gwybod ond ychydig am *Dduw'r cariad!*

mae gwybodaeth, wrtho ei hun, yn caledi ac yn oeri, ac yn colli ei archwaeth at rinwedd a daioni, ac yn ymfalchio, ac yn ymffrostio, ac yn barod, ar rai prydiau, i awgrymu, nad yw crefydd ei hunan o un gwerth ond i'r direswm a'r anwybodus—i wrageddos a phlant! Ond ni phâr yr ysgariaeth yn hir. Ni wna un o'r ddau fawr o beth heb y llall. Gellir dywedyd am wybodaeth a chariad, fel y dywedir am wr a gwraig, "Yr hyn a unodd Duw, na ysgared dyn."

Ond fe all rhyw un ofyn, Oni ddywedodd Paul lawer yn erbyn gwybodaeth? megys 1 Cor. i. 19, "Canys ysgrifenedig yw, Mi a ddifethaf ddoethineb y doethion, a deall y rhai deallus a ddilëaf." Ond y rhai a elwir yn "ddoethion" ac yn "ddeallus" yma, oeddynt y cyfryw a *dybient* eu bod yn "ddoethion" ac yn "ddeallus"—rhai oeddynt felly yn eu golwg eu hunain, ac yn ngolwg y byd; ond y rhai oeddynt, mewn gwirionedd, yn gorwedd "mewn anwybodaeth a phechod." Pa le bynag y mae'r Apostol yn dywedyd gair yn erbyn gwybodaeth a doethineb—*gwag-wybodaeth* sydd ganddo bob amser mewn golwg—*ffug-ddoethineb* y mae efe ym mhob man yn condemnio. "Pan dybient eu bod yn ddoethion hwy a aethant yn ffyliaid." Nid oes gwir ddoethineb yn un man ond yn ngwirioneddau Efengyl Iesu Grist; ac y mae'r gwirioneddau yma yn creu ac yn meithrin *cariad* ym mhob bron. Yr ydwyf yn meddwl y cydunwn bawb o honom yn hyn; pa le bynag y mae cariad, fod yno hiraeth parhaus am wybodaeth. Pan ymserchir mewn cyfaill, mai pob peth ag sydd yn perthyn iddo o bwys ini—ei syniadau—ei arferion—mae eisiau arnom wybod y cyfan—nid yw cariad yn blino byth i holi a chael allan bob gwybodaeth am ei gwrthddrych. Yn yr un modd, pa le bynag y mae cariad gwirioneddol at Dduw, yno y mae *hiraeth dibaid* am ragor o wybodaeth am dano—am ei ffyrdd—am ei ddybenion a'i fwriadau cariadlawn tuag at bob peth byw! A lle y mae diofalwch ac esgeulusdod am wybodaeth a gwirionedd, *yno* nis gall fod *cariad*—na chariad at Dduw, na chariad at ddyn! Mae cariad yn un o'r egwyddorion mwyaf bywiog ag a berthyn i ddyn, ac nid yw bosibl i'w digoni â gwybodaeth! Pa fwyaf mae cariad yn wybod, mwyaf i gyd mae hi yn garu; ac mae ei ffydd a'i hymddiried yn cynnyddu yn gywir gyfatebol i'w gwybodaeth. Lle nad oes wybodaeth, yno mae tywyllwch a dychryn, ac nis gall cariad fod lle mae ofn; oblegid y mae "perffaith gariad yn bwrw allan ofn." "Cariad, o Dduw y mae, a phob un a'r sydd yn caru, o Dduw y ganwyd ef, ac y mae efe yn adnabod Duw." Gwelwn yn amlwg, ynte, nad oes cariad ond mewn *adnabyddiaeth* o Dduw; a hyn yw'r achos o weddi'r Apostol—"Ar amlhau o'ch cariad chwi etto fwyfwy *trwy* wybodaeth a phob synwyr."

Nis gallwn fod yn *rhydd* i garu—*i garu hyd yr eithaf*—nes y byddom gwedi deall,—deall yn eglur ac yn amlwg wirioneddau Crist am y Tad. Fy nghyd-Gristnogion! mae o'r pwys mwyaf ein bod yn iawn-amgyffred y pwnc hwn. Nis gall na chariad, nac un rhinwedd, fodoli, ond trwy'r deall. Mae gwybodaeth yn hanfodol i bob rhinwedd Cristnogol!

A oes rhywbeth i'w ofni mewn gwybodaeth—gwir wybodaeth? Os ystyriwch am funud, chwi welwch nad ydyw yn erbyn gwybodaeth, fod rhai gwedi colli eu hunain yn nyryswch gwag-feddyliau. Nid yw hyn yn profi dim, ond fod rhai dynion mor ffol a gadael eu meddyliau i redeg yn gynt na'u synwyrau. Cam-arfer eu galluoedd meddyliol yw hyn.

(I'w barhau.)

YCHYDIG FYFYRDODAU AR GAEED O LAFUR.

Fel mae'r cae llafur, yr hwn sydd yn aml yn cael ei fygwth â pheryglon, yr hwn sydd yn agored i ymweliadau trwsgl y dymhestl, etto yn cael ei gadw mewn diogelwch er cynnyrchu ei ffrwythau gwerthfawr i'r amaethydd; felly y mae'r meddwl dynol, yr hwn sydd yn cael ei ymweled gan glefydau, yn cael ei ysgwyd gan ystormydd adfyd, etto yn sefyll i fynu yn erbyn y dymhestl, ac yn cael ei buro a'i nerthu gan ymryson ffyrnig. Ym munudau tristwch, pan mae gofal a thrafferth yn ein blino, y mae ein gwybodaeth, a'n ffydd, a'n gostyngeiddrwydd, yn cael eu cynhyddu a'u cadarnhau; canys er ein bod, fel y gorsen llafur, yn plygu tra mae'r ystorom yn chwythu drosom, y mae llaw cariadlawn Duw yn ein cyfodi yn dawel ac yn cysuro ein calonnau trallodus.

Y mae amser y cynhauaf yn agosâu, y mae'r llafur yn aeddfedu yn gyflym, y mae gwres yr haul a chafodydd tyner yn disgyn i frysio ei addfedrwydd. O bydded i ninnau hefyd, fel y mae un dydd ar ol y llall yn ein dwyn yn nes at ein diwedd, i ddyfod yn fwy addfed ym mhob daioni, a pharottoi i gael ein casglu at ein teidiau. Beth bynag fyddo ein sefyllfa yn y cyflwr hwn, pa un a fyddo llwyddiant yn gwenu arnom neu ryw ddrygau agos yn gwgu arnom, arweinied ein holl weithredoedd ni i ogoniant Duw, ac i gynnydd duwioldeb.

Megis ag y mae y corsennau â'r tywysennau mwyaf o lafur yn plygu dan bwys y trysor, tra mae'r tywysennau tlawd ac ysgafn yn sefyll yn syth, ac yn edrych dros y cae; felly yr ydym yn gweled dynion gwag a rhyfygus, heb wybodaeth na rhinwedd, yn dal eu pennau i fynu yn falch, ac yn edrych i lawr yn ddirmygus ar y rhai hyny y mae crefydd wedi dysgu i fod yn ostyngedig, dysgeidiaeth y rhai sydd yn gwybod terfynau gwybodaeth ddynol, a disylwedd-dra gwagedd.

Nid yw'r holl lafur sydd i gael ei fedi yr un mor dda, y mae efrau a chwyn yn gymmysg ag ef; ac felly mae dynion, y mae iddynt anianau (*qualities*) da a drwg: ac y mae eu llygredigaeth yn aml yn rhwystro eu mynediad yn y blaen mewn rhinwedd. Y mae'r drwg a'r afradlon, trwy eu esiamplau niweidiol yn aml yn bau efrau yn y maes, lle na ddylai dim ond had da dyfu. Y mae perchen y maes yn gadael iddynt aros dros amser, ac yn aros yn amyneddgar ddyfodiad y cynhauaf, cyn arfer y cyfiawnder di-dderbyn-wyneb hwnw fydd yn gwahanu y drwg oddiwrth y da.

Y mae'r crymman yn medi y llafur, ac y mae ffrwythau'r ddaear yn cael eu casglu yn llawen ynghyd. Y mae angau yn torri i lawr i'r llwch y cyfoethog a'r tlawd, yr uchel a'r isel, y cyfiawn a'r anghyfiawn; a dedwydd yr awr yn yr hon y bydd y rhai hyny sydd wedi dewis goleuni pur crefydd o flaen hudoliaeth cyfeiliornad, yn cael eu derbyn i wlad y gogoniant, ac yn cael eu rhifo ymhlith "ysprydoedd y cyfiawn, y rhai a berffeithiwyd." Cofiant yn llawen yr ystormydd, a'r peryglon, a'r treialon, a'r dioddefiadau, trwy y rhai y maent hwy wedi eu cadw, ac maent yn uno â goreuon byd i foliannu Duw y nefoedd.

Awst 27ain. C. C. Sturm.

EIN BARA BEUNYDDIOL.

Yr oedd Frank yn eistedd yn ei gadair fach ar bwys y tân, ac yn edrych yn ystyriol iawn, ac ystyried fath gorgi bach ydoedd.

"Beth sydd yn pwslan dy fenydd bach di yn awr?" meddai ei fam.

"Wel, mam," meddai efe, "yr wyf wedi bod yn meddwl pa fodd y mae Duw yn rhoddi bara i mi; y mae yn ymddangos i mi mai chwi sydd yn ei wneuthur ac yn ei roddi i mi; a phob tro yr wyf yn dywedyd, 'Dyro i mi heddyw fy mara beunyddiol,' yr wyf yn ffaelu gwneud maes sut y gall hyny fod, ac y mae hyny yn fy nhrwbli."

"O Frank," meddai Emma, "gofyniad drwg iawn ydyw hwna. Onid yw'r Beibl yn dweyd hyny, ac y mae hyny yn ddigon."

Edrychai Frank fel pe byddai wedi cael tippyn o ofn; ond rhoddodd ei fam wên siriol, a dywedodd, "Y mae yn dda genyf fi dy fod wedi gofyn, yr wyf fi yn leicio egluro pob peth ag y gallaf fi i ti. Y mae llawer o bethau nad ydym ni ddim yn eu

deall, ond mae yn rhaid i ni eu credu am fod y Beibl yn eu dywedyd. Ond yr wyf yn meddwl y gallaf ddangos i'm petruswr bach sut, tra yr wyf fi yn gwneuthur y bara y mae hefyd yn dyfod oddiwrth Dduw. A pheth y mae bara yn cael ei wneuthur Frank?"

"A blawd, mami.",

"Ac o b'le y mae'r blawd yn dyfod?"

"Mi wn i," meddai Susi fach, yr hon oedd wedi tynnu ei 'stol fach ymlaen i gael clywed beth oedd yn cael ei ddywedyd.

"O Rochester," meddai Frank.

"Ië;" ond b'le cas y melinydd ef?"

"Malodd ef o'r gwenith."

"A ph'le cas e'r gwenith?"

"Fe'i prynodd gyda rhyw ffermwr," meddai Emma, y ferch henaf.

"Ond b'le cas y ffermwr e'?"

"Beth, ond *tyfu* wnaeth," meddai Susi fach, yn llawen, gan beri iddynt oll i chwerthin.

"Digon gwir, fy mhlentyn; ond p'un o honoch a ddywed wrthyf *pa fodd* y tyfodd?"

Edrychodd Frank dippyn yn amheuol, ac attebodd Emma, "Beth, fe ddarfu i ryw ffermwr aredig ei gae, hau yr hadau, ac wedi iddo dyfu ac aeddfedu, fe'i torrodd â'r crymman; sychodd a dyrnodd ef wedi'n."

"Do, do," meddai'r fam, "fe wnaeth y dyn hynyna i gyd: ond a allai y dyn wneud y cwbl?"

"Allasai efe ddim gwneud y tir," meddai Frank ar ol gosteg hir.

"Na, Duw wnaeth y ddaear."

"Duw hefyd wnaeth y pridd o'r iawn fath; pe buasai yr hadau wedi cael eu hau mewn clai tyner neu laid, neu mewn tywod sych, neu ar graig, ni allasent flaguro na dwyn ffrwyth. Ond ar ol cael y tir yn barod, a allasai dyn wneuthur y cwbl o'r gweddill?

"Gallasai," meddai Emma, "fe allasai ei wrteithio."

"Yna, pe buasai Duw yn ei anghofio o wanwyn i Hydref, tyfai yr un cystal."

"O, na wnai," meddai Frank, "yr oedd yn rhaid iddo Ef i gadw ei haul i ddisgleirio arno trwy'r dydd."

"A daufon gwlaw," meddai Emma, "neu buasai y llafur yn gwywo ac yn marw,"

"O, ïe, nid oeddwn i yn cofio dim am hynny," meddai Frank.

PETH GWAHANIAETH.

Yr oedd Wiggins dippyn yn halogedig yn ei iaith—yr oedd yn rhegu fel y fyddin yn Flanders. Nid oedd yn iawn iddo wneuthur hyny, oblegid yr oedd wrth hyny yn troseddu gorchymmyn pendant cyfraith y Nefoedd, ac yn creu arswyd ym mynwes pob gwir Gristion.

Yr oedd Muggins yn dduwiol yn ei iaith; mewn gwirionedd, yr oedd yn annog ac yn gweddio fel saint, er adeiladaeth i'r eglwys, ac fel rhybuddiwr i ddynion pechadurus.

Dyn tlawd oedd Digby, a theulu mawr yn ymddibynu arno am eu cynhaliaeth; ac o! y fath anffawd a'i cyfarfyddodd: pan oedd wrth ei orchwyl gwaith yn y cwarel cerrig, torrodd aelod, a chludwyd ef gartref.

Tosturiodd Muggins wrth Digby; gobeithiodd y buasai Duw yn ei fendithio, gweddiodd ar fod ei anffawd i gael ei oruwchlywodraethu er lles ysprydol iddo; ac awgrymmodd y buasai yn rhaid i'r *Relieving Officer* gymmeryd ei sefyllfa dan ei ystyriaeth; ac y buasai efe, Muggins, yn cofio am Digby yn ei weddiau.

Clywodd Wiggins am anffawd Digby, a gollyngodd allan ychydig ——; dywedodd mai effaith "diofalwch d——g" ydoedd, a dim arall, ond y buasai efe yn myned drosodd i'w weled. Aeth drosodd â thorth o fara dan bob braich; a chrwt cryf gydag ef yn llusgo ar ei ol, â *ham* mochyn dan ei fraich. Ni ddylai Wiggins ddim gwneud felly; hy., fe ddylai gario yr *ham* ei hunan, a gadael y bachgen gario y bara; ond creadur difeddwl ydoedd, a thippyn yn halogedig yn awr ac yn y man.

Aeth i mewn, a dywedodd wrth Digby ei fod ef yn gwybod o'r goreu y buasai Digby yn sicr o dorri ei wddf ryw dro neu gilydd oherwydd ei ddiofalwch. "Ond," meddai efe, "yr wyf yn teimlo yn ddrwg iawn drosot, mor ddrwg a hyna heddyw, gan droi ei fys at y bara a'r *ham;* ond teimlaf yn waeth foru etto os bydd eisiau. Bydd di yn galonog, ni chei di ddim newynu; a phan y gwelli etto, cymmer fwy o ofal am dy esgyrn." Aeth y gair *esgyrn* a swn y drws yn un, yr oedd Wiggins wedi myned. Sychodd Mrs. Digby y dagrau o'u llygaid ac edrychodd ar y trysor, ac ni wyddai hi ddim llai nad atteb ydoedd i weddi y diacon Muggins; yr oedd efe yn ddyn mor dduwiol a da; y mae yn ddiamheu fod ganddo ddylanwad mawr gyda'r Hwn sydd ar yr orsedd dragwyddol.

Ond yn sicr yr oedd peth gwahaniaeth rhwng Wiggins a Muggins, ac yr oedd yn dda i Digby druan fod peth gwahaniaeth rhyngddynt; oblegid pe buasent debyg, buasai Digby mewn cyflwr digon tlawd; buasai wedi marw, neu ynte wedi dioddef oddiwrth y gowt.

Ddarllenydd, pa un o'r ddau hyn oedd y Cristion goreu? Feallai ei bod yn anhawdd gennyt atteb, am hynny adroddaf eiriau un sydd yn awdurdod da iawn ar bynciau o'r fath:—

"Deuwch, chwi fendigedigion fy Nhad, etifeddwch y deyrnas a barotowyd i chwi er seiliad y byd. Canys bum newynog, a chwi a roisoch i mi fwyd; bu arnaf syched, a rhoisoch i mi ddiod; bum ddieithr, a dygasoch fi gyda chwi; noeth, a dilladasoch fi; bum glaf, ac ymwelsoch â mi; bum yng ngharchar, a daethoch attaf."

Tebyg iawn i Wiggins, ond nid tebyg i Muggins. Beth ddywedi di?

DUELL DOW.

YR "ESSAYS AND REVIEWS."—RHIF. V.

Y PEDWARYDD o'r Traethodau sydd gan y Parch. H. B. Wilson, Ficer Great Staughton, Hants—ar Yr Eglwys Genedlaethol *(The National Church).* Braidd, debygem, y bydd eisieu i ni ddywedyd nad ydym yn cyttuno a'r Traethodydd dysgedig yn ei amddiffyniad o'r *cgwyddor* o grefydd genedlaethol sefydledig, nac ychwaith yn ei olygiadau ar fuddioldeb y fath sefydliad. Ond rhaid cydnabod fod yr awdwr yn trafod ei bwnc gyda chryn lawer o degwch ac hynawsedd. Yn hyn, yn ddiau, y mae wedi rhoddi esiampl teilwng i'w cfelychu hyd yn oed gan y rhai ydynt yn ei gondemnio ef a'i gyd-draethodwyr mor ddiarbed. Mae'n wir fod yn y traethawd rai pethau tramgwyddus dros ben, nid yn unig i ragfarnau y bobl gyffredin, ond hefyd i olygiadau Cristnogion deallus; etto, yr y'm yn meddwl fod yn y traethawd lawer o bethau ag sydd yn wir deilwng o ddwys ystyriaeth pob proffeswr crefydd, yn ac allan o'r Eglwys Sefydledig.

Ac mewn perthynas â'r cwestiwn o *uniondeb* yr *egwyddor* o sefydliad crefyddol, a'r cymmwysder neu yr anghymmwysder o osod a chadw i fynu grefydd genedlaethol, ymddengys i ni fod Mr. Wilson, mewn effaith, yn rhoddi i fynu'r pwnc, pan y mae yn cydnabod mai crefydd *bersonol,*—golygiadau a thueddiadau a gyfodent oddiar argyhoeddiad personol—ydoedd eiddo yr Apostolion a'r Cristnogion cyntaf—crefydd ag oedd a'i lle yn y meddwl a'r serchiadau ac yn y teulu; a bod cryn amrywiaeth o olygiadau ar amryw bynciau, yn cael ei oddef yn nghynulleidfaoedd y rhai oeddent yn cyduno i gydnabod dwyfol darddiad yr efengyl. A phan, mewn ychwanegiad i hyn, y mae yn sefyll dros hawl a dyledswydd pob dyn i chwilio a barnu drosto ei hun ar bynciau crefydd a duwioldeb, braidd y gadewir yn ôl iddo un rhith o reswm dros yr angenrheidrwydd neu y cymmwysder o sefydlu Eglwys Genedlaethol.

Gwelir hefyd y byddai yr "Eglwys" a fyn Mr. W. a'i gyd-draethodwyr gymeradwyo ac amddiffyn, yn bur wahanol, o ran erthyglau a gweithrediad, oddiwrth Eglwys waddoledig ein gwlad. Mae eu sylwadau athrawiaethol a beirniadol, parth cynnwysiad a phriod swydd y Beibl, a'r iawn esponiad o hono, eisoes wedi cyfodi ystorm yn eu herbyn a'r nas gostegir yn rhwydd; wrth bob argoel, ddim nes deuir i weled pa un ai oes modd ai peidio, yn gyfreithlon, i ddystewi a chospi y traethodwyr anturiaethus. Dr. Rowland Williams sydd i gael sefyll ei dreial yn gyntaf. Disgwylir i hyny gymeryd lle ar fyr iawn. Os llwyddir i'w lethu ef, daw tro y lleill o bosibl yn bur fuan; oddieithr iddynt, yn y cyfamser, weled fod parch at y gwirionedd a chysondeb yn galw arnynt i gymmeryd eu cennad ac ar unwaith ymadael â'r Eglwys. Pa fodd bynag yr ydys yn galw am cyfraniadau ewyllyswyr da tuag at gynnorthwyo Dr. W. yn y drauł o'i amddiffyniad.

Y mae amryw o sylwadau Mr. Wilson yn y traethawd hwn yn galw am sylw neilldiol; yr hyn o herwydd ein gofod cyfyngedig nis gellir ar y pryd hwn. Dygir rhai o honynt ger bron ein darllenwyr mewn rhifynau dyfodol, mewn perthynas âg "Ysprydoliaeth ac Anffaeledigrwydd." Rhaid ymfoddloni yn bresennol ar ddifynu yn unig yr hyn a ddywed, yn y diwedd-glo, mewn perthynas i oruchwyliaethau Duw yn y byd hwn a'r byd a ddaw.

"Nis gall yr Eglwys Gristnogol ond yn unig gweinyddu i'r rhai a roddir dan ei gofal, hyd at ymyl y llynclyn hwnw sy'n rhanu rhwng y byd hwn a'r byd anweledig. Mae rhyw ychydig o'r rhai a feithrinwyd ganddi yn awr yn addfed ac yn barod i ddechreu ar uwch gyrfa; y rhan fawr—yn mhell o fod felly—nid y'nt ond ysprydoedd mewn cyflwr dechreuol ac amherffaith—eneidiau had-flagurol. Pa beth a ddaw o honynt? Os edrychwn ar y byd oddiamgylch ac ystyried cymmeriad canolig (*neutral*) y lluaws, yr ydym yn methu gwybod pa fodd yn iawn i gyflëu attynt, naill ai addewidion, neu fygythion dadguddiad. . . . . .

Y mae Eglwys Rhufain wedi dychymygu 'limbus infantium' (goror babanod); rhaid i ni yn hytrach letŷa gobaith, y bydd, ar ôl y farn fawr, leoedd i'w cael cymmwys i dderbyn y cyfryw a fyddant *fabanod*, nid o ran blynyddau o fywyd ar y ddaear, ond o ran dadblygiad ysprydol—maethfaoedd (*nurseries*) megys, er egino'r hadau, ac er meithrin plannigion gwan, lle y bydd i'r rhai nas dadblygwyd hwynt (*the undereloped*) i gael tyfu dan amgylchiadau newydd—y rhai a rwystrwyd yn eu tyfiant i gael dyfod yn gryfion, a'r rhai a gamdröwyd i'w hadferu. A phan y bydd yr Eglwys Gristnogol wedi cyflawni ei gwaith a'i swydd ddaiarol—pan y bydd ei Hawdwr wedi rhoddi i fynu EI deyrnas i Dduw a'r Tad—bydd i bawb—fychain a mawrion, gael noddfa yn mynwes y Tad cyffredinol, i orphwys, neu i gael eu bywiocau i fywyd uwch, yn yr oesoedd i ddyfod, yn ol ei Ewyllys Ef."

I.

YMADAWIAD UN O BREGETHWYR Y BEDYDDWYR.

Ymddangosodd y llythyr canlynol yn yr "Unitarian Herald" am Awst 3ydd:—

AT Y PARCH. MR. REES AC EGLWYS Y BEDYDDWYR YN Y DRE'NEWYDD.

CHWI a gydsyniwch oll â mi fod cywirdeb yn anhebgorol angenrheidiol i wir grefydd, ac hebddo nad oes yr un addoliad, nad pa mor gostfawr ac ysplenydd y dichon iddo fod i lygad dyn, yn gymeradwy gyda'n Tad nefol. Mae gwir grefydd yn hardd a syml; rheswm a ffydd ydyw, yn rhodio law-yn-llaw, i gael allan cwyllys un Duw, y Tad, ac yn profi pob darganfyddiad ysprydol

wrth ein hymwybodaeth ein hunain, gan brofi pob peth, a dal yr hyn sy wir; ac yn rhoi ffurf weledig *(embodying)* i'r cyfryw ddarganfyddiadau mewn bywyd bennyddiol—trwy weithredoedd o gyfiawnder a thrugaredd.

Dros ryw gymaint o amser, yr wyf wedi ei theimlo yn hollol anghydweddol â fy argyhoeddiadau crefyddol i lanw unrhyw areithfa gyda'r Bedyddwyr, neu i gymeryd rhan weithgar, mewn unrhyw fodd, yn eglwysi y Bedyddwyr; yn wir nis gallaswn gymeryd y cyfryw ran heb anghywirdeb—heb ddysgu a phregethu yr hyn nad oeddwn yn gredu; neu ynte bregethu yr hyn a gredwn i oedd gwir grefydd, a'r hyn y gwnaech chwi (yn ddiau genyf) yn hynaws gredu ei fod yn gau a drygionus. O ganlyniad, er mwyn fy enaid fy hun, fy nyndod fy hun *(my own manhood)*, ar ol llawer o feddwl ac ystyried, yr wyf wedi dyfod i'w chyfrif yn ddyledswydd arnaf i ymadael ag Eglwys y Bedyddwyr, fel y b'wyf at fy rhyddid i draethu'r gwirionedd yn gyflawn ac yn agored, fel y deuaf o hyd iddo yn ngair Duw. Mae yn ddilys genyf, y bydd i chwi gymeradwyo y fath gam, pan y dywedaf wrthych, fy mod yn credu mai yr Eglwys Undodaidd yw yr agosaf i'r peth a ddylai y wir eglwys fod, ac y cynwysa ynddi hadau *(germs)* yr eglwys gatholig i ddyfod. Credaf mewn un Duw, y Tad, a neb arall ond Efe. Yr wyf yn gwrthod athrawiaeth y Drindod fel yn anysgrythyrol, ac fel yr hyn nad yw ond yn unig wedi tarddu oddiwrth hunan-dybiaeth dynol *(human speculation)*, ac heb fod wedi ei dadguddio yn un lle fel yn hanfodol i iechydwriaeth.

Yr wyf yn credu mewn UN Iesu Grist, Mab Duw, ac Iachawdwr dynion—ein Dysgawdwr mawr, ein Brawd a'n Cyfaill. Ond nis gallaf gredu yr athrawiaeth o gyfiawnder cyfrifol; ac yr wyf yn ofni fod yr athrawiaeth hon o achubiaeth er mwyn arall wedi bod yn ffynonell doreithiog o lawer o annuwioldeb yn yr eglwys, ac o lawer o anghyfiawnder yn y byd. Cyfrwng iechydwriaeth yw yr Iesu, ac nid yr achos. Dyfod a wna iechydwriaeth oddiwrth Dad trugarog i blentyn edifeiriol, crediniol, a diwygiadol.

Yr wyf yn anghredu yr athrawiaeth o bechod gwreiddiol. Credaf yn nwyfoldeb ac anfarwoldeb y natur ddynol.

Yr wyf yn credu yn rhydd-ewyllys dyn—yn ei allu i fyw yn santaidd a duwiol yn y byd presenol.

Yr wyf yn credu yn Mhrynedigaeth ddiweddol yr hil ddynol trwy Iesu Grist.

Yr wyf yn caru ac yn parchu y da trwy holl sectau yr Eglwys Gristnogol.

Chwi a welwch oddiwrth y crynodeb hwn o'm credo ei bod yn amhosibl i mi *aros* yn hwy yn *aelod* o *Eglwys y Bedyddwyr*.

Gorphwysaf,

Yr eiddoch yn ffyddlawn,

Gorphenaf 21, 1861. JOHN BEVAN.

GWRTHGYNGHORION SOBR RHAG MEDDWDOD.

"*Every inordinate cup is unblest, and the ingredient a devil.*"—SHAKSPEARE.

Os ydych yn dymuno bod bob amser yn sychedig, byddwch yn feddwyn, canys po amlaf a mwyaf yr yfoch, amlach a mwy sychedig y byddwch.

Os ydych am attal eich cyfeillion i roddi codiad i chwi yn y byd, byddwch yn feddwyn, canys ettyb hyny eu holl ymdrechion.

Os ydych am wrthsefyll yn effeithiol eich ymdrechion eich hunan i wneuthur yn dda, byddwch yn feddwyn, ac ni chewch eich siomni.

Os ydych yn dymuno attal ymgais yr holl hil ddynol i'ch codi i gymeriad da, i lwyddiant ac i barch, byddwch yn feddwyn, a byddwch yn sicr o lwyddo.

Os ydych yn penderfynu bod yn dlawd, byddwch yn feddwyn, a byddwch ar fyr yn frattiog ac heb geiniog gennych.

Os mynnwch newynu eich teulu, byddwch yn feddwyn, canys difetha hyny holl foddion eu cynhaliaeth.

Os ydych am gael eich yspeilio, byddwch yn feddwyn, galluoga hyny y lleidr i gyflawni ei orchwyl gyda mwy o ddiogelwch.

Os ydych am bylu eich deall, byddwch yn feddwyn, ac ni fyddwch yn hir cyn colli eich synwyrau.

Os ydych am analluogi eich hunan i siarad yn rhesymmol, byddwch yn feddwyn, canys gwna hyny chwi yn hollol anaddas at hyny.

Os ydych am fod eich holl ddisgwyliadau mewn bywyd yn cael eu cymmylu, byddwch yn feddwyn, a byddant ar fyr yn ddigon tywyll.

Os ydych yn dymuno distrywio eich corph, byddwch yn feddwyn, canys y mae meddwdod yn fam clefydau.

Os ydych yn bwriadu dinystrio eich enaid, byddwch yn feddwyn, fel y caffoch eich cau allan o'r nefoedd.

Os ydych yn penderfynu lladd eich hunan, byddwch yn feddwyn, canys y mae yn ffordd sicr o ddwyn dinystr arnoch.

Os ydych yn dymuno dynoethi eich ffolineb a bradychu eich *secrets*, byddwch yn feddwyn, canys rhedant allan tra byddo'r gwirodydd yn rhedeg i mewn.

Os ydych yn cael eich bliuo gyda gormodedd nerth corphorol, byddwch yn feddwyn, a darostyngir ef heb fod yn hir gan wrthwynebwr mor nerthol.

Os ydych am gael gwared o'ch arian, heb wybod pa fodd, byddwch yn feddwyn, a diflanant yn ddiarwybod i chwi.

Os ydych am fod heb un noddfa yn eich henaint, ond y *workhouse*, byddwch yn feddwyn, ac ni fyddwch yn alluog i barottoi uni.

Os mynnwch chwi yrru pob dedwyddwch teuluaidd allan o'ch lletty, byddwch yn feddwyn, ac yn fuan daw anghydfod a'i holl gyfeillion drwg i mewn.

Os ydych yn dymuno bod dan ddrwg-dybiaeth cryf bob amser, byddwch yn feddwyn, canys er lleied yr ydych yn meddwl hyny, y mae pawb yn cyttuno yr yspeilia hwnw eraill, yr hwn sydd yn lladratta oddiwrth ei hunan a'i deulu.

Os ydych am ddarostwng eich hunan i'r angenrheidrwydd o ochel eich gofynwyr *(creditors)*, byddwch yn feddwyn, a bydd genych reswm yn glau ar ol hyny i ddewis y dirgel-lwybrau yn hytrach na'r heolydd cyhoeddus.

Os ydych yn dymuno bod yn bwnu ar gefn y wlad, ac yn diffrwytho'r ddaear, byddwch yn feddwyn, oblegid pâr hyny i chwi fod yn ddiddefnydd, yn ddiymgeledd, ac yn gostus.

Os ydych yn hoff o dipyn o ddifyrwch ger bron llys cydwybod, byddwch yn feddwyn, a byddwch heb fod yn faith yn gas hyd yn oed gennych eich hunan.

Os ydych am fod yn blâ i gymdeithas, byddwch yn feddwyn, a gochelir chwi fel peth heintus.

Os ydych yn ofni diwygiad oddiwrth eich beiau, byddwch yn feddwyn, ac ni fyddwch yn agored i un cynghor.

Os ydych am dorri ffenestri, am aflonyddu heddwch y wlad, am dorri eich esgyrn, am gwympo dan draed ceffylau, am gael eich cau ynghrachar, byddwch yn feddwyn, a bydd yn beth tra rhyfedd os na lwyddwch.

Yn ddiweddaf, os ydych yn penderfynu distrywio eich hunan yn llwyr, yn gorph ac enaid, byddwch yn feddwyn, a byddwch yn gwybod heb fod yn hir ei bod yn ammhossibl i chwi i gymmeryd moddion mwy effeithiol i ddwyn oddiamgylch eich DIWEDD.

O'r "*Christian Inquirer.*"

Gohebiaethau.

CYMDEITHAS LLYFRAU UNDODAIDD DEHEUBARTH.

Mr. Gol.,—Gadewch i mi ddiolch i Mr. Thomas, o Bantydefaid, am ddwyn hen "Gymdeithas y Dwyfundodiaid yng Nghymru" gerbron sylw y cyhoedd. Ychydig iawn, mewn cydmariaeth, o ddarllenwyr yr Ymofynydd oedd yn gwybod fod y fath Gymdeithas wedi bod mewn bodolaeth erioed. Gobeithio na ddistawant hwy ddim mwy hyd nes y gwelont hi ar ei thraed etto, ar sicrach a chadarnach traed nac y gwelwyd hi erioed. Bu o wasanaeth "yn ei dydd;" ond fel llawer o bethau eraill, nid oedd ei dydd hi i fod yn hir, daeth henaint ar ei gwarthaf, a methodd ddal i fynu dan ei bwys. Os bu eisiau ei gwasanaeth erioed, y mae yn sicr bod ei eisiau yn awr; am hyny yr wyf yn dymuno yn daer ar y cyfeisteddwyr i beidio gadael i lythyr Mr. T. fod yn ddisylw ganddynt. Paham y gadawer i liosogrwydd o bregethau i rwystro gweithrediad y gymdeithas. Nis gall llawer o bregethau, debygaf fi, atteb un diben da; dygant ddyryswch i feddyliau y bobl, a pharant iddynt anghofio y cwbl a glywsant. Byddai yn llawer gwell cael un bregeth dda a'i chofio hi, na chael cant, a bod y rhai hyny i gyd yn cael eu hanghofio. Ond os yw yn rhaid cael lliaws o bregethau, paham na ellir eu cael ar y dydd Mercher? Gellir wedi'n roddi dydd Iau at waith y gymdeithas, a chael *y bregeth* arferol gyda llaw.

Y mae amryw lyfrau a phregethau, &c., wedi cael eu hargraphu, o bryd i bryd, gan yr Undodiaid yng Nghymru, am y rhai nid yw darllenwyr yr Ymofynydd yn gyffredin yn gwybod dim. Paham na ellir ffurfio rhyw gynllun tuag at wneuthur y rhai hyn yn adnabyddus? Ai gwell yw eu cadw yn fwyd i lygod?

Yr eiddoch, &c.,

Alpha.

Mr. Golygydd,—Darllenais lythyr y Parch. T. Thomas, ynghyd â'ch sylwadau chwi, yn eich rhifyn diweddaf, yn nghylch yr hen Gymdeithas Llyfrau Undodaidd yn Nghymru, gyda llawer iawn o lawenydd. Da iawn fydd genyf weled yr hen gymdeithas, yr hon a fu gynt mor anrhydeddus a defnyddiol, mewn bywyd a gweithrediad etto. Y mae miloedd lawer, yn y gymydogaeth hon, a mwy fyth mewn ardaloedd eraill o Gymru, nad ydynt erioed wedi darllen, a llaweroedd nad ydynt wedi cael cyfleustra i ddarllen traethodau Undodaidd. Dymunaf o'm calon, bob llwydd i'r cynnygiad i osod bywyd newydd mewn cymdeithas sydd mor rhagorol yn ei hamcanion.

Yr wy'n meddwl y gallaf ystyried fy hun yn aelod. Flynyddau yn ol, nid wyf yn cofio yn iawn pa gymaint, mi delais i mewn i'r drysorfa bum swllt yn y flwyddyn am ddwy flynedd. Ond ni ddarfu i mi appleio am werth yr arian o'r llyfrau oeddent mewn *stock*. Yr wy'n gweled yn awr fod lle i ddisgwyl y bydd i mi gael hyny o ddymuniad cyn bo hir. A minau, os caf werth ar y llyfrau, a ddychwelaf yr arian i'r Trysorydd.

Yr wyf yn foddlon hefyd i dalu pum swllt yn y flwyddyn o hyn allan, mor gynted ag a gosoder y Gymdeithas mewn gweithrediad. Ac, mewn perthynas i'r gymdeithas a gynnygwyd "er cynnorthwyo gweinidogion ieuainc yn Nghymru," yr wyf yn foddlon, tra y gallwyf, i dalu pum swllt yn y flwyddyn at hono hefyd, wedi iddi gael ei gosod ar droed.

Gobeithio y ca' i glywed oddiwrthych maes o law. Ewch yn y blaen yn galonog; a da chwi, Mr. Gol., peidiwch anghofio'r *tracts*.

Yr eiddoch, &c.,

Wil Amherffaith.

O.S.—Ac etto, Syr, a fyddwch chwi mor dda a gosod yn yr Ymofynydd y llythyr oddiwrth y diweddar Thomas Evan, y Tilter, yn *Seren Gomer*, yn mha un y clywais ei fod yn ceryddu "Amnon" am wadu bodoliaeth y Diafol.

[Nid yw llythyr y Tilter o fewn ein cyrhaedd ar hyn o bryd, ac nid y'm yn cofio ei ddarllen. Anfonir y *tracts*, a'r llyfrau, os gellir, gyda sypyn misol yr Ymofynydd, ar y cyfleustra cyntaf.—Gol.]

Y SARPH BRES.

At Olygydd yr "Ymofynydd."

TAER erfyniaf ar rai o'ch gohebwyr medrus i roddi ychydig eglurdeb mewn perthynas i'r "Sarph Bres."

Yr ydym yn darllen yn Numeri xxi. 8, 9, "A dywedodd yr Arglwydd wrth Moses, Gwna it' sarph danllyd, a gosod hi ar drostan: a phawb a frather, ac a edrycho ar hono, fydd byw. A gwnaeth Moses sarph bres, ac a'i gosododd ar drostan: yna, os brathai sarph wr, ac edrych o hono ef ar y sarph bres, byw fyddai."

Gan fod pregethwyr ag sydd yn cael eu cyfrif o uniawn-gred yn traethu fod y sarph hono yn gysgod o'r Arglwydd Iesu, ac yn mynegi mai ein dyledswydd ydyw edrych ar Iesu ar y groes; ac yna mai byw fyddwn ninau, er y brathiad dwfn gafodd ein rhieni cyntaf yng Ngardd Eden; ac hefyd fod Codwm Eden yn dwyn perthynas â phawb o'r hil ddynol; ac mai'r Iawn anfeidrol a dalodd Crist ar y groes ydyw'r unig ffordd i'r "gwirionedd a'r bywyd;" ac felly mai edrych ar Grist, trwy ffydd, ar y groes, sydd yn dangos y sarff bres a gyfodwyd yn yr anialwch gan Moses, yn wir gysgod o'r Arglwydd Iesu—

Yn awr, y gofyniad ydyw, os ydoedd y sarff bres yn wir gysgod o'r Arglwydd Iesu, a ydyw ddim yn eilun-addoliaeth ynom ni i dalu addoliad crefyddol i Grist, gan fod y cysgod gwedi cael ei gyfrif yn drosedd yn yr Israeliaid, trwy iddynt arogl-darthu i'r sarff bres? Gwelwn yn yr 2 Breninoedd, xviii. 4, ddarfod i'r brenin duwiol, Hezeciah, falurio'r sarff bres, a'i galw yn "Nehustan," neu'r tegan pres.

Ychydig nodiadau ar hyn a rydd foddlonrwydd i lawer heblaw—

Yr eiddoch yn serchog,

Swyddffynon, E. JONES.
Awst 22, 1861.

Hanesion Cartrefol a Thramor.

Y SENEDD A'R LLYS.—Gollyngwyd y Senedd dydd Mawrth y 6fed o Awst. Yn absenoldeb ei Mawrhydi, darllenwyd yr Araeth Freninol gan yr Arg. Ganghellydd. Nid oedd dim yn y cynwysiad a fyddai yn galw am sylw neilluol. Dydd Mercher, yr 21ain, aeth y Frenhines a'r Llŷs i ymweled â'r Iwerddon. Tranoeth wedi croesi'r môr o Gaergybi, glaniodd yn Kingston yn mhorthladd Dublin. Fel arferol groesawyd ei Mawrhydi yn galonog gan bob gradd o'r bobl. Yr oedd y Tywysog Alfred, ei hail fab, newydd ddychwelyd adref o Canada, a Thywysog Cymru wedi bod ys wythnosau bellach gyda'r fyddin yn ngwersyll *Curragh,* nid pell o Dublin, yn dysgu ymarferiadau milwrol, yntau a ddaeth i'r ymgyfarfod. Wedi ymweled â Llychau Killarney, a golygfeydd eraill yn y gymydogaeth, ond gyda chyn lleied possibl o rwysg brenhinol, bwriadai ei Mawrhydi cyn diwedd yr wythnos ganlynol i gychwyn tua Scotland, i aros am y tymhor arferol, yn Mhalas Balmoral.

Y CYNHAUAF.—Peth sydd o fwy o bwys na dim a wnaed neu a gynnygiwyd gan y Senedd na'r Weinyddiaeth, gyda golwg ar dawelwch, cysur, a llwyddiant cyffredinol, ydyw y fendith fawr o gael tywydd ffafriol at y Cynhauaf. Y mae y tywydd hyfryd o fendithiol yr ydym yn gael yn y dyddiau hyn yn lloni calonau miloedd ar filoedd, trwy y gobaith a rydd am lewndid o ymborth iachus i drigolion ein gwlad, heb orfod, fel yr oeddid yn ofni, treulio cymaint o arian at gyrchu moddion ein bara beunyddiol o wledydd pellenig.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YN ABERDAR,—Nis gallwn lai na meddwl fod yr Eisteddfodau yma ymhlith hynodion ein cenedl, os nad yr anrhydeddusaf o honynt. Y maent o hen sefydliad, yn cyrraedd yn ôl i'r hen oesoedd cynhanesiol. Yr oedd pethau cyffelyb gan genhedloedd eraill yn yr oesoedd gynt; megys y Groegiaid, y rhai a gynnalient eu campau neu eisteddfodau cenedlaethol ar gyfnodau cylchynol penodedig, yn mha rai y byddai cystadleuaeth, nid mewn ymarferiadau corphorol yn unig, ond hefydmewn cynnyrchion awen a chelfyddid. Pa fodd bynag y mae llenoriaeth

Gymreig, prydyddiaeth'a pheroriaeth, yn taro yn neillduol at chwaeth y Cymry yn y dyddiau hyn, mwy felly gyda golwg ar y dosparth gweithgar nag un genedl arall dan y nef. A diau fod rhywbeth mewn awen a chelfyddyd ag sy'n dyrchafu dynoliaeth uwchlaw budreddi daearoldeb, ac yn arwain y meddwl at bethau uwch a gwell. Nis gallwn ni, ar gydwybod, ddymuno "Oes y byd i'r Iaith Gymraeg," nac i un iaith arall. Ond etto y Gymraeg yw iaith y Cymry yn bresenol; ac wrth bob argoelion parha i fod yn iaith y genedl am rai cenhedlaethau etto. Gwneler gan hyny y goreu o'r offerynoliaeth sydd yn ein dwylaw, er cyfoethogi'r iaith a'i gwneud yn fwy effeithiol fyth at bob peth sydd werthfawr a chanmoladwy. Ar yr un pryd ceisied pob Cymro, tra yn gwrteithio iaith ei dadau, hefyd ddysgu Saisnaeg, a ieithoedd eraill os bydd gallu a chyfleusdra; ond er dim dysged Saisnaeg. Yn lle diystyru a chondemnio eisteddfodau o herwydd amherffeithiau, y mae yn gwestiwn pa un a ddylai dynion o ddawn a dysg yn ein plith, ymgymeryd at y gorchwyl cenedlgarol o geisio dylanwadu er gwneuthur Eisteddfodau yn fwy effeithiol er daioni cyffredinol.

Agorwyd yr Eisteddfod gan Tegai a Chlwydfardd boreu dydd Mawrth, Awst 20, yn rhoolaidd, yn unol a'r cyhoeddiad un dydd a blwyddyn o'r blaen, ar Hirwaun Wrgant, yn ôl defod Beirdd Ynys Prydain. Ond o herwydd yr anffawd a ddigwyddasai i'r Babell ëang a baratoesid at yr achlysur ar Don Hirwain, gohiriwyd y cyfarfod i Dŷ'r Farchnad, lle yr oedd pob parotoadau a allesid dan yr amgylchiad annisgwyliadwy wedi cael eu gwneuthur ar gyfer gweithrediadau yr Eisteddfod, a lle y cynnaliwyd y cyfarfodydd am dri diwrnod, yn llwyddianus dros ben. Llywydd y dydd cyntaf oedd H. A. Bruce, Ysw., A.S. Yn ei anerchiad i'r Llywydd, dywedai Mr. Williams, Ynyscynon, "Yr ydym wedi ymgynull heddyw o amgylch baner ein gwlad enedigol, gan anghofio pob mân bynciau y gallwn wahaniaethu yn eu cylch, ac uno un llaw a chalon, fel un genedl i wneuthur rhywbeth er cadw mewn cof a symbylu gwrteithiad ein Llenyddiaeth a'n Cerddoriaeth hynafol; a "dyma y tro cyntaf y mae y Gogledd a'r Deheu wedi ymuno a'i gilydd er mwyn rhoddi golygfa i'r byd o Arddangosiad Cenedlaethol cynddrychiolaidd trwyadl.' Ar yr esgynlawr gwelid offeriaid a gweinidogion ymneilldueig—beirdd a llenorion o bob talaith o Gymru ac o Loegr, ac un gwr enwog o Ffrainc, y rhai a ymddangosent yn wresog ac unfrydol gyda gwaith yr Eisteddfod. Cyfarfod dydd Mercher a lywyddid gan H. H. Vivian, Ysw., A.S., a dydd Iau gan Crawshay Bailey, Ysw., A.S. Am 6 yn yr hwyr am y tri diwrnod, cynnelid Cyngherdd, pan y byddai pabell y cyfarfod yn orlawn.

Ar yr "Arwrgerdd," testun, Caractacus yn ei amddiffyniad o Ynys Prydain yn erbyn ymosodiadau y Rhufeinwyr, yr oedd pedwar ymgeisydd. Cadifor, Mr. L. W. Lewis, Dinbych, (*Llew Llwyfo,*) a farnwyd yn oreu. Gwobr 30 gini, tlws 10 gini. Yn y gystadleuaeth ar destun y Gadair, "Awdl ar Genedl y Cymry," derbyniwyd saith cyfansoddiad Cymreig—un Saisonig. Gwobr 30 gini, tlws 10 gini, ynghyd â'r gadair. Buddugol, Llifon Tudur, y Parch. Morris Williams, Rector Llanrhuddlad, Mon., (*Nicander*), yr hwn a arweiniwyd i'r Gadair gan Tegai, Clwydfardd, a Ioan Emlyn. Cyhoeddir y Cyfansoddiadau buddugol, ond odid yn y *Taliesin.* Ni chaniateir nac amser na gofod i ni ddywedyd rhagor. Rhoddir hanes lled gyflawn o weithrediadau yr Eisteddfod yn y *Gwladgarwr* am Awst 24; ac yn y *Cardiff Guardian.* Cyhoeddwyd gan Clwydfardd y bydd yr Eisteddfod y flwyddyn nesaf i gael ei chynnal yn Nghastell Caernarfon.

Hungary.—Y mae wedi myned yn ddrwg etto rhwng Ymherawdwr Awstria a'r Hungariaid. Rhoddid cynnygion teg ar un llaw; ond ar y llaw arall ni roddid coel i broffesiadau yn unig, nac ymddiried mewn addewidion a ellid eu galw yn ol ar y cyfle cyntaf. Darfu i'r *Diet* yn Pesth dystio ei gwrthodiad i ymgorphori âg Awstria, a'u penderfyniad i sefyll wrth yr hen sefydliadau gwladol a gawsant oddiwrth eu tadau. Ar hyny gollyngwyd y *Diet;* ac yn awr trwy rym milwyr yn unig y dygir ymlaen lywodraeth Awstria yn Hungary.

America.—Y mae yn myned o ddrwg i waeth gydar Americaniaid. Yn y frwydr gyntaf a gymerodd le rhwng y North a'r South yn Bull's Run, yn agos i Manassas, trechwyd gwyr y North hyd at orfod encilio mewn modd cywilyddus, a cholli cannoedd lawer o fywydau, ynghyd â moddion a darpariadau rhyfelawl. Byddir yn disgwyl yn bryderus am newyddion y mis nesaf.

Barddoniaeth.

CAN AR GARIAD.

TÔN—"*Merch Megan.*"

Y gwrthrych o Gariad sy'n gwneuthur yn wastad [glod;
Bob unol gydseiniad neu glymiad trwy
Pe meddwn ar ddoniau gwych euraidd a geiriau,
Mi ganwn am hwna tra bywyd yn bod.
'Does dim mor rhagorol a chariad mynwesol,
Yr hwn sy'n feddianol, caiff drysor didrai,
Sef heddwch tufewnol, llawenydd gwastadol,
A'i ymgais yn hollol am lwyddiant pob rhai.
Un hynod yw Cariad am lwybr agored
I lunio ymwared i'r gwirion a'r gwan;
Nid yw e'n gormesu na threisio mewn teulu,
Hyfrydwch 'run hynny yw heddychu 'mhob man.

Hawdd 'nabod y teulu bo Cariad yn ffynnu,
Mae hwn yn arogli trwy'r ardal mae'n bod;
Pan delo'r gwr gartre' o'i orchwyl neu siwrne
Y wreigan lawena o'i ganfod e'n dod:
Cair gwel'd ei fabanod yn llammu i'w gyfarfod,
Mewn awydd frwd hynod i 'mglymmu am ei glun;
Y tad o'i fawr Gariad â'i freichiau'n agored
Mewn awydd yn wastad i dderbyn pob un.
Y gwas a'r law-forwyn a welir mor addfwyn,
Os cariad fydd rhyngddynt â'u meistr heb fraw;
A chariad cym'dogaeth fe ladd bob gelyniaeth,
Dwg heddwch da ffyniant a llwyddiant bob llaw.

Gwir Gariad ar gynydd fe una'r holl wledydd,
Rhyfeloedd a dderfydd pan ddelo i'r ma's;
'Does eisiau i'w amddiffyn na brenhin na byddin,
Y gynau, magnelau, na'r cleddyf llym glas.
Ni fydd eisiau 'n carchardy, swyddogion, na chrogi,
Ond Cariad yn geidwad ar feddiant pob un;
Ni welir un carpiog gardottyn newynog,
Bydd hwn yn alluog i gynnal pob dyn.
Daw Cariad â dynion i edrych mor dirion—
Holl frodyr un galon beth bynnag fo'u lliw,
Yn estyn llaw beunydd; wel dyma fyd dedwydd,
Cydnabod ein gilydd oll, deulu 'run Duw.

Trecynon. EVAN R. JENKIN.

CARIAD.

EFELYCHIAD O'R SAESNEG.

O! nefawl rosyn hoff a hardd,
Prif addurn gardd y Nef;
Nid oes yn mhlith ei blodau drwg
Yr un mor deg ag ef.

Rhagori mae ei gelnder llon
Ar rosyn Saron syw;
A mwy dymunol yn ddiau
Na'r holl berlysiau yw.

Ei hyfryd beraroglaidd iach
A leinw wlad y mawl;
Ei blethu yn bwysïau heirdd
Wna gwych angelion gwawl.

Grisialaidd ffrydiau cariad yw
Y ddysglaer afon bur,
A dardd o dan orseddfainc Duw
I loni'r nefol dir.

Wrth gofio cariad Iesu glân
Dyrchafwn gân ddilyth:
Am gariad Duw y tery'r sant
Ei beraidd dant dros byth.

Caerodor. CAWR AYRON.

GADEWCH I BLANT BYCHAIN DDYFOD ATTAF FI.

O dewch at yr Iesu, mae'n galw ar ein hol,
Mae'n cymhell ni i adael hen lwybrau y ffol;
Mae'n dweyd wrth y dynion sy'n attal i ni
Fyn'd atto, "Gadewch iddynt dd'od attaf fi."

O dewch at yr Iesu, dewch atto fe 'nawr,
Mae ef yn ein caru ni'n fach ac yn fawr;
Gadawn ein ffolineb, gwrandawn ar ei lef,
Mae'n galw plant bychain i dd'od atto ef.

Na foed i ni dyngu na rhegu mewn gwg,
Nid ydyw yr Iesu yn caru plant drwg;
Ymladdwyr, celwyddwyr, sydd gâs ganddo ef,
Ni chaiff plant drygionus ddim myned i'r Nef.

A boed i ni garu ein gilydd i gyd,
A Duw a'n câr ninnau tra b'om yn y byd;
A phan byddom farw cawn fyn'd atto Ef,
Yn mreichiau yr Iesu, i wynfyd y Nef.

R.

PENYBONT: ARGRAFFWYD GAN WILLIAM LEYSHON.